Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.wales.gov.uk

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

# Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit

Ymarfer Ymgysylltu - Adroddiad Cryno

Mehefin 2018

Gwyddor Gymdeithasol mewn Llywodraeth
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Social Science in Government

OB3 Ymchwil Research

REGENERIS

# BUDDSODDI RHANBARTHOL YNG NGHYMRU AR ÔL BREXIT

# YMARFER YMGYSYLLTU - ADRODDIAD CRYNO

**OB3 Ymchwil**
**Nia Bryer**
**Mehefin 2018**

# Cynnwys

Rhestr o Dablau a Ffigurau ........................................................................ 4
Geirfa ........................................................................................................ 5
Crynodeb Gweithredol ............................................................................. 6
1. Cyflwyniad ........................................................................................ 10
2. Y dull gweithredu cyffredinol .............................................................. 15
3. Yr Egwyddorion Allweddol .................................................................. 20
4. Blaenoriaethau ac amcanion craidd ar gyfer buddsoddi ........................ 38
5. Rolau a chyfrifoldebau ........................................................................ 43
6. Sicrhau'r cymysgedd cywir .................................................................. 47
7. Manteision y dull gweithredu cyfredol i'w cadw .................................. 50
8. Cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol ................................................... 54
9. Syniadau newydd neu arloesol ............................................................ 58
10. Rhaglenni'r UE y dylid eu cadw ......................................................... 60
11. Chwarae rhan wrth ddatblygu model buddsoddi rhanbarthol at y dyfodol ........................................................................................................ 63



Gwefan: http://wefo.wales.gov.uk | E-bost: enquiries-wefo@wales.gsi.gov.uk | Ffôn: 0845 010 3355

# Rhestr o Dablau a Ffigurau

Tabl 1.1: Proffil ymatebwyr yr ymarfer ymgysylltu ........................................ 13
Tabl 2.1: Cydsyniad â'r dull gweithredu cyffredinol a bennwyd yn y papur polisi ........................................ 16
Tabl 3.1: Cydsyniad ag Egwyddor 1 - Cryfhau gwaith partneriaeth trwy bartneriaethau strategol, cadarn a chynhwysol ........................................ 20
Tabl 3.2: Cydsyniad ag Egwyddor 2 - Ffocws tymor-hir ar ffurf dull gweithredu sy'n seiliedig ar raglenni aml-flwydd, er mwyn rhoi hyder i fuddsoddwyr ....... 22
Tabl 3.3: Cytundeb ag Egwyddor 3 - Cymysgu dulliau gweithredu cydategol sy'n seiliedig ar fuddsoddi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wedi eu hadeiladu o gylch rhanbarthau economaidd swyddogaethol ........................................ 24
Tabl 3.4: Cydsyniad ag Egwyddor 4 – Rôl fwy i bartneriaethau rhanbarthol cynhwysol wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau, wedi ei hwyluso gan aliniad adnoddau cysylltiedig ........................................ 25
Tabl 3.5: Cydsyniad ag Egwyddor 5 - Gwell integreiddiad rhwng gwahanol feysydd polisi â ffocws ar bobl a lleoedd, gan dynnu gwahanol ffynonellau cyllid a modelau ariannu ynghyd ........................................ 27
Tabl 3.6: Cydsyniad ag Egwyddor 6 - Cryfhau'r ffocws ar ddeilliannau, ond gan sicrhau eu bod yn cwmpasu mesurau o gylch anghydraddoldeb, lles, cynhwysiant a chynaliadwyedd amgylcheddol ........................................ 29
Tabl 3.7: Cydsyniad ag Egwyddor 7 – Cryfhau gwaith monitro a gwerthuso wrth symleiddio'r gofynion o ran tystiolaeth a sicrhau cyfranoldeb................. 31
Tabl 3.8: Cydsyniad ag Egwyddor 8 - Symleiddio'r rheolau a'r meini prawf, wrth sicrhau triniaeth deg a chyfartal i bawb ........................................ 33
Tabl 3.9: Cydsyniad ag Egwyddor 9 – Mentro'n fwy i hyrwyddo arloesi a denu buddsoddiad o'r sector preifat ........................................ 34
Tabl 3.10: Cydsyniad ag Egwyddor 10 - Hybu cydweithio trawsffiniol ar draws Cymru, y DU, yr UE a'r tu hwnt ........................................ 36
Tabl 4.1: Gosod Amcanion Lles Llywodraeth Cymru yn Nhrefn Blaenoriaeth 39

Ffigur 4.1: Y meysydd buddsoddi a gynigiodd yr ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol ........................................ 40

# Geirfa

| **Acronym** | **Ystyr** |
|---|---|
| Daphne | Rhaglen a ariennir gan yr UE â'r nod o amddiffyn plant, pobl ifanc a menywod rhag trais |
| EAP | Cynllun Gweithredu Economaidd |
| EIB | Banc Buddsoddi Ewrop |
| ESF | Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop |
| ESIF | Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop |
| ETC | Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| GVA | Gwerth Ychwanegol Gros |
| INTERREG | Rhaglen a ariennir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) i gynorthwyo cyfnewid arferion a syniadau ar draws Ewrop |
| JEREMIE | Cyd-adnoddau Ewropeaidd ar gyfer Mentrau Micro i Ganolig |
| ARWEINYDD | Dull lleol o ddatblygu wedi ei gydariannu trwy Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRED) a roddwyd ar waith o dan y Rhaglenni Datblygu Gwledig (RDP) |
| LEPs | Partneriaethau Menter Lleol |
| LIFE | Offeryn ariannol yr UE i gynorthwyo prosiectau amgylcheddol, cadwraeth natur a gweithredu dros yr hinsawdd |
| LSOAs | Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lleol |
| NWEAB | Bwrdd Uchelgeisiau Economaidd Gogledd Cymru |
| PAC | Polisi Amaethyddol Cyffredin |
| PMC | Y Pwyllgor Rheoli Rhaglenni |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |

# Crynodeb Gweithredol

Ers i'r DU wneud penderfyniad i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE), mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried sut y gellir amddiffyn buddiannau Cymru yn ystod trafodaethau Brexit, ac yn benodol, sut y gellir cynnal a defnyddio'r lefelau cyfredol o fuddsoddiad sydd ar gael ar ffurf Cronfeydd yr UE, sydd werth rhyw £680 miliwn y flwyddyn. Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Papur Gwyn Diogelu Dyfodol Cymru[1] sy'n pennu'r sialensiau a'r cyfleoedd y bydd Cymru'n eu hwynebu yn sgil Brexit.

Yn Rhagfyr 2017, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru bapur polisi, Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit[2], sy'n pennu cynigion manwl i archwilio'r flaenoriaeth polisi buddsoddi rhanbarthol ymhellach. Gwahoddodd Llywodraeth Cymru randdeiliaid a phobl eraill â buddiant i rannu eu safbwyntiau ar y Papur Polisi Buddsoddi Rhanbarthol yma trwy ymarfer ymgysylltu. Lansiwyd yr ymarfer ymgysylltu ar 14 Rhagfyr 2017, a daeth i ben ar 23 Mawrth 2018. Rhoddwyd cyfle i gyfranogwyr ymgysylltu a chyfrannu trwy set o gwestiynau ymgynghori ffurfiol, arolwg byr ar-lein ac amryw o achlysuron ymgysylltu eraill.

Mae'r adroddiad cryno hwn yn cynnig dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion a gafwyd i'r ymarfer ymgysylltu, a chaiff ei ddefnyddio i fwydo gwaith Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill ar ôl Brexit. Mae'n tynnu ar safbwyntiau 41 o ymatebwyr i ymarfer ymgysylltu ffurfiol, 83 o ymatebwyr i arolwg ar-lein a safbwyntiau 190 o gyfranogwyr a fynychodd achlysuron ymgysylltu. O'r 124 o ymatebion a ddaeth i law, bu'r sectorau preifat a chyhoeddus i gyfrif am 16 y cant o ymatebion yr un, a bu'r awdurdodau lleol a'r trydydd sector i gyfrif am 14 y cant o'r ymatebion yr un. Daeth 13 y cant pellach o'r ymatebion o'r sector addysg, 14 y cant o sector arall ac ni ddatgelodd 14 y cant eu sector.

[1] Mae Llywodraeth Cymru (Ionawr 2017) Diogelu Dyfodol Cymru ar gael yn https://beta.gov.wales/sites/default/files/2017-02/31139%20Securing%20Wales%C2%B9%20Future_Version%202_WEB.pdf

[2] Mae Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2017) Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit ar gael yn https://beta.gov.wales/sites/default/files/2017-12/regional-investment-in-wales-after-brexit_0.pdf



Gwefan: http://wefo.wales.gov.uk | E-bost: enquiries-wefo@wales.gsi.gov.uk | Ffôn: 0845 010 3355

Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r dull gweithredu cyffredinol a ddisgrifiodd Llywodraeth Cymru yn ei bapur polisi i bob pwrpas. Pwysleisiodd yr ymatebwyr pa mor bwysig oedd cynnal y lefel gyfredol o fuddsoddiad yng Nghymru ar ôl Brexit, ac roeddent yn galw am i benderfyniadau buddsoddi gael eu gwneud yng Nghymru yn hytrach na gan Lywodraeth Prydain. Byddai lleiafrif o'r ymatebwyr wedi croesawu mwy o fanylder o ran y dull o weithredu yn y papur polisi, sy'n awgrymu bod y ddogfen wedi llwyddo i bennu gweledigaeth lefel strategol yn sgil Brexit.

Mae'r dadansoddiad yn dangos bod y cyfranogwyr yn croesawu'r deg egwyddor a gynigiwyd yn y papur polisi ar y cyfan. Roedd yna gefnogaeth gref dros symleiddio'r rheolau a'r meini prawf sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau, cryfhau gwaith partneriaeth a darparu ar gyfer gwaith traws-ffiniol. Fodd bynnag, er eu bod yn dal i fod yn gefnogol ar y cyfan, roedd llai o'r ymatebwyr o'r farn bod angen cryfhau'r ffocws ar ddeilliannau yn y dyfodol. Roedd yna gefnogaeth helaeth dros symleiddio'r gofynion monitro a gwerthuso sy'n gysylltiedig â buddsoddi rhanbarthol at y dyfodol, ac awgrymwyd bod angen i hyn fod yn gyfrannol i lefel y buddsoddiad o dan sylw.

Roedd nifer llethol o'r cyfranogwyr yn gefnogol o'r cyfleoedd a bennwyd yn y papur polisi i ddileu'r ffiniau artiffisial cyfredol a'r diffyg hyblygrwydd sydd yna ar hyn o bryd oherwydd rheolau cyllid yr UE. Roeddent yn croesawu cyfleoedd i ymateb i anghenion ardaloedd economaidd swyddogaethol hefyd, a harneisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau lle bo hynny'n briodol.

Mynegodd y cyfranogwyr safbwyntiau mwy cymysg am y strwythur y gellid ei fabwysiadu i reoli buddsoddi rhanbarthol ar ôl Brexit. Yn hynny o beth, er eu bod yn teimlo bod y seilwaith partneriaethau cyfredol yng Nghymru'n gryf, dadleuodd y cyfranogwyr bod angen ei adolygu a'i symleiddio er mwyn sefydlu'r strwythur mwyaf addas at y dyfodol. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo ei bod hi'n arbennig o bwysig bod y seilwaith partneriaeth yn hollol gynrychiadol, a'i fod yn gynhwysol ar bob lefel. Roedd yna ddymuniad helaeth i weld partneriaethau rhanbarthol, ym mha ffurf bynnag y maent yn cael eu mabwysiadu yn y pen-draw, yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros benderfyniadau buddsoddi, ac roedd yna rywfaint o archwaeth i weld y

partneriaethau hyn yn cael eu dal i gyfrif am benderfyniadau buddsoddi, cyllidebau wedi eu dirprwyo a deilliannau.

Roedd y cyfranogwyr yn croesawu'r dull gweithredu a ddisgrifiwyd yn y papur polisi i gynnal y dull o weithredu ar sail ariannu aml-flwydd tymor-hir sydd ar waith ar hyn o bryd. Roedd yna alw i ddiffinio'r cyfnod hwn ac i ymgorffori hyblygrwydd i'r rhaglen er mwyn sicrhau y gall Cymru fod yn ymatebol i anghenion a blaenoriaethau'r dyfodol.

Roedd y cyfranogwyr yn gefnogol o weld Llywodraeth Cymru'n chwarae rhan strategol wrth bennu amcanion ar lefel genedlaethol ar gyfer buddsoddiadau rhanbarthol a'u bod (mewn partneriaeth ag eraill) yn gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau ar lefel genedlaethol. Roedd yna deimlad cyffredin y dylai'r amcanion lefel cenedlaethol hyn gael eu bwydo gan y polisïau a bennir yn y Cynllun Gweithredu Economaidd ac yng nghyd-destun deddfwriaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Dadleuodd y cyfranogwyr y dylid dirprwyo'r gwaith o gynllunio a gwneud penderfyniadau am fuddsoddi rhanbarthol i bartneriaethau rhanbarthol. Clustnododd y cyfranogwyr amrywiaeth eang iawn o amcanion o ran lles, gyda'r ymatebwyr ar-lein yn gosod 'pobl a busnesau' ar frig y rhestr, wedyn 'gofal iechyd'.

Roedd yna gefnogaeth helaeth dros weld buddsoddi rhanbarthol yn cael ei ddyfarnu trwy fodel Cymru-eang un ffrwd i gwmpasu cyfalaf a refeniw ill dau yn y dyfodol, am fod yna deimlad y byddai hyn yn cynnig mwy o hyblygrwydd, ac y byddai'n fwy ymatebol i ddiwallu anghenion a chyfleoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, nid pawb o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno, a datgelodd yr ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu ryw ddymuniad i weld cyfran o'r buddsoddiad yn cael ei neilltuo ar gyfer dulliau gweithredu penodol, a meysydd gwaith thematig fel datblygu gwledig ac ymyraethau lleol dan arweiniad y gymuned.

Mynegodd y cyfranogwyr neges gadarn iawn na ddylid colli dulliau gweithredu lleol na rhai o'r gwaelod i fyny sy'n targedu anghenion lleol a chymunedol penodol, a chlustnodwyd arferion LEADER fel esiampl o arfer da y dylid eu cadw o ran datblygu lleol dan arweiniad y gymuned. Yn ogystal â LEADER, roedd yna ddymuniad cadarn

hefyd i weld Cymru'n cadw mynediad at rai o raglenni allweddol eraill yr UE yn sgil Brexit, ac yn arbennig y rhai sy'n canolbwyntio ar addysg (Erasmus a Horizon 2020) yn ogystal â rhaglenni Ewrop Greadigol a Chydweithredu Ewropeaidd fel Interreg.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

Gofynnodd Llywodraeth Cymru am safbwyntiau partneriaid, rhanddeiliaid a phobl eraill â buddiant yng Nghymru trwy ymarfer ymgysylltu a fyddai'n helpu i fwydo'r cyfeiriad strategol y dylai Llywodraeth Cymru ei bennu ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit.

Ers i'r DU wneud penderfyniad i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE), mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried sut y gellir amddiffyn buddiannau Cymru yn ystod trafodaethau Brexit, ac yn benodol, sut y gellir cynnal a defnyddio'r lefelau cyfredol o fuddsoddiad sydd ar gael ar ffurf Cronfeydd yr UE, sydd werth rhyw £680 miliwn y flwyddyn. Yn wir, mae Cronfeydd Strwythurol yr UE wedi bod ar gael yng Nghymru ers rhyw 20 mlynedd, ac mae'r buddsoddiad cyfredol o £2 biliwn ar gyfer rhaglen 2014-2020 yn fuddsoddiad sylweddol i economi Cymru.

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Papur Gwyn Diogelu Dyfodol Cymru[3], sy'n pennu'r sialensiau a'r cyfleoedd a fydd yn wynebu Cymru yn sgil Brexit. Mae'r Papur Gwyn yn pennu chwe maes blaenoriaeth ar gyfer trafodaethau â Llywodraeth y DU. Mae un o'r meysydd blaenoriaeth hyn yn canolbwyntio ar fuddsoddi rhanbarthol, ac mae'n amlygu pwysigrwydd cynnal lefelau buddsoddiad yr UE fel 'na fydd Cymru geiniog ar ei cholled y tu allan i'r UE'[4].

Yn Rhagfyr 2017, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru bapur polisi, Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit[5], sy'n pennu cynigion manwl i archwilio'r flaenoriaeth o ran polisi buddsoddi rhanbarthol ymhellach. Mae'r papur polisi'n

---

[3] Mae Llywodraeth Cymru (Ionawr 2017) Diogelu Dyfodol Cymru ar gael yn https://beta.gov.wales/sites/default/files/2017-02/31139%20Securing%20Wales%C2%B9%20Future_Version%202_WEB.pdf

[4] Ibid, t.19

[5] Mae Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2017) Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit ar gael yn https://beta.gov.wales/sites/default/files/2017-12/regional-investment-in-wales-after-brexit_0.pdf

cyflwyno pum egwyddor allweddol ar gyfer delio â buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit, sef:

- sefydlu polisi buddsoddi rhanbarthol parhaus a hir-dymor
- adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd yn sgil 20 mlynedd o bolisi rhanbarthol yr UE
- ymrwymiad parhaus i weithio mewn partneriaeth
- cynnal ac adeiladu ar draddodiad Cymru fel cenedl allblyg
- darparu rhaglenni buddsoddi sy'n seiliedig ar bobl a lleoedd at y dyfodol.

Gwahoddodd Llywodraeth Cymru randdeiliaid a phobl eraill â buddiant i rannu eu safbwyntiau ar y Papur Polisi Buddsoddi Rhanbarthol yma trwy ymarfer ymgysylltu. Lansiwyd yr ymarfer ymgysylltu ar 14 Rhagfyr 2017, a daeth i ben ar 23 Mawrth 2018. Rhoddwyd y cyfle i gyfranogwyr ymgysylltu trwy dri chyfrwng:

- set o gwestiynau ymgysylltu ffurfiol: gofynnwyd i'r cyfranogwyr ymateb i ddeg cwestiwn allweddol a bennwyd yn Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit: Cwestiynau[6]
- arolwg ar-lein byr: gofynnwyd i'r cyfranogwyr fynegi eu safbwyntiau ar nifer o gwestiynau caeedig 'graddfa Likert'[7] trwy eu gosod yn nhrefn blaenoriaeth yn ogystal â nifer fechan o gwestiynau penagored. Roedd y cwestiynau hyn yn cwmpasu'r ddau gwestiwn cyntaf o ddeg a godwyd yn yr ymarfer ymgysylltu ffurfiol â ffocws ar y materion mwyaf strategol a'r angen am gadw'r arolwg ar-lein mor gryno â phosibl er mwyn denu ymatebion
- achlysuron ymgysylltu: cynhaliwyd nifer o achlysuron ymgysylltu, gan gynnwys dau weithdy yn Chwefror 2018, y naill yn y gogledd a'r llall yn y de. Daeth 190 o gyfranogwyr i'r rhain a chawsant eu harwain gan uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys swyddogion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

---

[6]Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit Llywodraeth Cymru: Mae'r cwestiynau ar gael yn https://gov.wales/docs/wefo/publications/171213-questions-en.pdf

[7] Defnyddir cwestiynau'r raddfa Likert i fesur agweddau a safbwyntiau'n fwy manwl na dewis ie/na syml. Mae'n darparu graddfa pum (neu saith) pwynt sy'n caniatáu i unigolyn fynegi i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno â datganiad penodol, a'r pwynt canol niwtral yw ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Yn ogystal, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd a thrafodaethau rhwng uwch swyddogion WEFO a sefydliadau unigol - cyfrannodd cyfanswm o ryw 300 o unigolion at yr ymarfer ymgynghori trwy'r dulliau gweithredu hyn. Ystyrir y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y trafodaethau hyn wrth i Lywodraeth Cymru edrych ar sut y bydd yn delio â buddsoddi rhanbarthol yn sgil Brexit, ond, oni bai bod y sefydliadau o dan sylw wedi cyflwyno ymatebion ysgrifenedig neu fynychu'r gweithdai, nid ydynt o reidrwydd wedi bwydo'r adroddiad cryno hwn.

Mae'r adroddiad cryno hwn yn cynnig dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu a chaiff ei ddefnyddio i fwydo gwaith Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill ar ôl Brexit.

## 1.2 Y Fethodoleg a'r Dadansoddiad

Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar safbwyntiau:

- 41 o ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol
- 83 o ymatebion i'r arolwg ar-lein
- 190 o gyfranogwyr yn y gweithdai.

Ceir proffil o'r rhai a ymatebodd i'r ymarfer ymgysylltu yn Nhabl 1.1. Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn ymateb i'r arolwg ar-lein nodi pa un o wyth sector yr oedden nhw'n ei chynrychioli. Rhannodd yr ymchwilwyr yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori ffurfiol yn un ar ddeg sector. At ddibenion dadansoddi, mae'r holl ymatebion wedi cael eu codio yn ôl un o chwe sector, heblaw am y rhai na roddodd unrhyw ymateb i'r cwestiwn hwn yn yr arolwg ar-lein (17).

Mae hi'n bwysig nodi y gallai'r ymatebwyr gyfrannu trwy bob un o'r tri chyfrwng os oeddent yn dymuno, yn wir, cawsant eu hannog i wneud hynny. Rhoddwyd yr un pwys i bob ymateb yn y dadansoddiad, dim ots pa gyfrwng a fabwysiadwyd. Mae hi'n werth nodi hefyd bod rhai o'r ymatebwyr, fel sefydliadau aelodaeth, partneriaethau rhanbarthol a rhai ymatebwyr o'r trydydd sector, yn cynrychioli safbwyntiau nifer fwy o sefydliadau neu aelodau, er nad yw'n bosibl mesur graddfa'r amrywiaeth o safbwyntiau sy'n bodoli o fewn eu haelodaeth.

**Tabl 1.1: Proffil ymatebwyr yr ymarfer ymgysylltu**

| | Yr Ymarfer Ymgysylltu Ffurfiol | Yr Arolwg Ar-lein | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Y sector preifat** | 5 (12%) | 15 (18%) | 20 (16%) |
| **Y sector cyhoeddus** | | | 20 (16%) |
| *Llywodraeth Cymru*[8] | 1 (2%) | 5 (6%) | |
| *Cyhoeddus arall* | 1 (2%) | 10 (12%) | |
| *Partneriaethau rhanbarthol* | 3 (7%) | | |
| **Awdurdod Lleol** | 11 (27%) | 6 (7%) | 17 (14%) |
| **Y trydydd sector** | 6 (15%) | 11 (13%) | 17 (14%) |
| **Arall** | | 10 (12%) | 17 (14%) |
| *Sefydliadau aelodaeth* | 3 (7%) | | |
| *Unigolion* | 3 (7%) | | |
| *Undebau Llafur* | 1 (2%) | | |
| **Addysg** | | | 16 (13%) |
| *Addysg Uwch* | 5 (12%) | 5 (6%) | |
| *Addysg Bellach* | 2 (5%) | 4 (5%) | |
| Heb nodi sector | | 17 (21%) | 17 (14%) |
| Cyfanswm | 41 (100%) | 83 | 124 (100%) |

O ran fformat yr ymatebion a gafwyd i gwestiynau'r ymarfer ymgynghori ffurfiol:

- defnyddiwyd fformat y cwestiynau a ddarparwyd gan 30 o ymatebion ac ni chafodd ei defnyddio ar gyfer 11 o’r ymatebion. O'r rhai a ddefnyddiodd fformat y cwestiynau, nododd 12 safbwyntiau a gwybodaeth ychwanegol
- o’r 30 a ymatebodd gan ddefnyddio fformat y cwestiynau, ymatebodd 15 i bob un o’r 10 cwestiwn. Ymatebodd pedwar pellach i naw cwestiwn, ac ymatebodd tri arall i wyth cwestiwn. Ymatebodd yr wyth sy'n weddill i lai o gwestiynau
- roedd hyd yr ymatebion i gwestiynau’r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yn amrywio o gwta un dudalen i 22 tudalen o hyd, gyda chyfartaledd o ychydig bach yn llai na chwe thudalen.

[8] Er taw ymarfer ymgysylltu Llywodraeth Cymru yw hi, cafwyd rhai ymatebion gan aelodau unigol o staff Llywodraeth Cymru ac o adran o fewn Llywodraeth Cymru sydd ar wahân i'r un a oedd yn arwain yr ymarfer ymgysylltu

Dadansoddwyd pob ymateb a gafwyd i'r ymarfer ymgysylltu, a chyflawnwyd dadansoddiad eilaidd o sampl o 20 y cant i brofi a lliniaru unrhyw duedd o ran yr ymchwilydd. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r safbwyntiau a fynegwyd gan y cyfranogwyr a fynychodd y ddau weithdy, ac yn benodol a oedd y safbwyntiau hyn yn ategu neu'n groes i'r safbwyntiau a fynegwyd trwy ymatebion unigol.

Mae'r dadansoddiad wedi canolbwyntio ar y safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r cwestiynau ymgysylltu a ofynnwyd. Fodd bynnag, ystyriwyd unrhyw faterion a safbwyntiau a godwyd gan yr ymatebwyr yn ddigymell hefyd.

## 1.3 Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno'r pwyntiau allweddol a godwyd gan yr ymatebwyr. Cafodd ei strwythuro i gyd-fynd â'r deg cwestiwn ymgysylltu a bennwyd gan Lywodraeth Cymru: mae penodau 2 i 11 yn delio â phob cwestiwn ymgysylltu yn eu tro.

# 2. Y dull gweithredu cyffredinol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr rannu eu safbwyntiau ar y dull gweithredu cyffredinol a bennwyd yn y papur polisi Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit, gan feddwl beth sydd wedi gweithio'n dda gyda rhaglenni cyfredol a rhai blaenorol. Gofynnwyd hefyd iddynt ystyried y cyfleoedd a'r sialensiau sydd ynghlwm wrth ddull o weithredu sy'n seiliedig ar fuddsoddi rhanbarthol yng Nghymru at y dyfodol.

Mae dadansoddiad o'r holl ymatebwyr yn awgrymu bod y cyfranogwyr yn croesawu'r dull gweithredu cyffredinol a bennodd Llywodraeth Cymru, er bod llawer o ymatebwyr yn tymheru eu safbwyntiau yn hynny o beth o ran eu bod yn teimlo bod y papur polisi yn cynnig dull strategol lefel uchel o fynd ati ond ei fod yn brin o fanylion penodol o ran cyflawniad. Yn wir, nododd un o'r ymatebwyr hyn bod 'y ddogfen yn brin o arwyddion pendant o ran sut ... y disgwylir i hyn weithio'n ymarferol' (Addysg Uwch).

Roedd y mwyafrif (71 y cant neu 59 o ymatebwyr) o'r rhai a ymatebodd i gwestiwn caeedig[9] yn yr arolwg ar-lein o'r farn bod y dull gweithredu cyffredinol a bennwyd yn y papur polisi'n briodol, fel y mae Tabl 2.1 yn ei ddangos. Roedd nifer fechan yn anghytuno (10 o ymatebwyr neu 12 y cant) ac roedd y rhain yn fwy tebygol o fod yn ymatebwyr o'r sector preifat (pedwar o'r 10 ymatebwr, neu 40 y cant). Darparodd cyfanswm o 63 o ymatebwyr ymateb ansoddol i'r cwestiwn cyntaf yma, ac o'r rhain ymatebodd 29 trwy'r arolwg ar-lein a 34 trwy'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol. Nododd cyfanswm o 16 o'r 34 (47 y cant) a ymatebodd i gwestiynau'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yn benodol eu bod yn 'cytuno', yn 'croesawu' neu'n 'cefnogi' y dull gweithredu a amlinellwyd, tra bod eraill yn dueddol o amlygu gwendidau penodol neu feysydd yr oeddent yn anghytuno â nhw.

[9] Y cwestiwn oedd 'ydych chi'n cytuno neu'n anghytun â'r dull gweithredu cyffredinol a ddisgrifiwyd yn y papur polisi?'

**Tabl 2.1: Cydsyniad â'r dull gweithredu cyffredinol a bennwyd yn y papur polisi**

| | Nifer | Cyfran |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 19 | 23% |
| Cytuno | 40 | 48% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 15 | 18% |
| Anghytuno | 5 | 6% |
| Anghytuno'n gryf | 5 | 6% |
| Dim ateb | 1 | 1% |
| Cyfanswm | 83 | 100% |

Ffynhonnell: Ymatebion i'r arolwg ar-lein (83 ymateb)

Nododd y rhai a oedd yn cytuno â'r dull gweithredu a bennodd Llywodraeth Cymru eu bod yn teimlo ei fod yn 'synhwyrol ac yn bragmatig' (Y Sector Cyhoeddus), ac roeddent yn croesawu'r 'elfennau a'r egwyddorion a nodwyd yn y papur' (Partneriaeth Ranbarthol).

Roedd yr atebion i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol (13 i gyd) yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal yr un lefel o fuddsoddiad rhanbarthol ar ôl Brexit, a mynegwyd pryder sylweddol am effaith 'colli unrhyw ran o'r cyllid yma' (Addysg Bellach). Dadleuodd un o'r ymatebion y bydd yn 'hanfodol sicrhau cyllid penodol ar ôl Brexit i gynnal datblygiad ardaloedd ag economïau bregus' (Awdurdod Lleol), a dadleuodd un arall bod 'angen adlenwi bwlch y £370m o gronfeydd yr UE a ddyrennir i Gymru ar sail angen ar hyn o bryd' (Partneriaeth Ranbarthol). Er nad oedd cyfeiriad penodol at y peth yn y papur polisi, roedd dau ymateb a oedd yn cynrychioli'r sector amaeth yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal yr un lefel o fuddsoddiad mewn cymorth i ffermydd sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Datblygu Gwledig ar ôl Brexit.

Roedd yr ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yn teimlo hefyd ei bod hi'n bwysig sicrhau taw Cymru sy'n pennu lefel y buddsoddiad ar ôl Brexit yn hytrach na Llywodraeth Prydain. Nododd un o'r ymatebwyr hyn 'rydyn ni'n croesawu'n gryf gwrthodiad cadarn LlC [Llywodraeth Cymru] i unrhyw syniad o ganoli polisi datblygu economaidd rhanbarthol yn y DU' (Y Trydydd Sector). Mynegwyd pryder am y materion a allai godi pe bai'r mecanweithiau ariannu'n cael eu gwahanu rhwng cynlluniau Cymru a Llywodraeth Prydain, a galwyd am osgoi hyn os oes modd.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r dull gweithredu arferol o ddyrannu buddsoddiadau yn y dyfodol yn ôl angen (yn hytrach na dull gweithredu'n seiliedig ar boblogaeth):  'mae croeso arbennig i'r syniad o dargedu adnoddau a gweithredoedd mewn ffordd sydd â ffocws fwy daearyddol er mwyn mynd i'r afael â gwendidau economaidd parhaus mewn ardaloedd fel y Cymoedd' (Awdurdod Lleol). Nododd dau ymateb ar lein yn benodol eu bod yn croesawu'r awgrym o 'ddull gweithredu sy'n seiliedig ar bobl a lleoedd'.

Galwodd nifer o ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol ar Lywodraeth Cymru i fynd ati i ddelio â buddsoddi rhanbarthol â 'chreadigrwydd ac uchelgais' (dau o'r sector Addysg Uwch) ac i ddod o hyd i 'ffyrdd newydd o weithio' (Y Sector Preifat), yn hytrach na dim ond gwneud addasiadau i'r strategaeth a'r strwythurau sy'n bodoli eisoes, neu wneud 'dim ond dyblygu rheolau'r UE' (Y Sector Preifat). Fodd bynnag, nid oedd yr ymatebion hyn yn cynnig unrhyw drafodaeth fanwl am beth y byddai hyn yn ei olygu'n ymarferol.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gefnogol iawn o ddileu'r hyn yr ystyrir i fod yn ffin ddaearyddol artiffisial rhwng Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mewn llond llaw o achosion, dadleuwyd yn glir nad oedd y rhaniad hwn wedi bod o gymorth i ranbarthau fel y canolbarth, ac roedd yna ddymuniad i weld atebion daearyddol mwy priodol yn seiliedig ar ranbarthau. Yn yr un modd, roedd yr ymatebwyr (yn ogystal â'r rhai a gyfrannodd at y gweithdai) yn croesawu cyfleoedd i weithio ar draws y ffin â Lloegr lle bo hynny'n briodol.

Yn wir, roedd yna groeso helaeth i'r dull gweithredu rhanbarthol a gynigiwyd yn y papur polisi, ac ystyriwyd bod gweithio ar sail partneriaethau a chydweithredu rhanbarthol yn gydrannau hanfodol i ganiatáu i hyn weithio'n dda. Pwysleisiodd dwy bartneriaeth ranbarthol y dull gweithredu hwn yn benodol, gan ychwanegu bod partneriaethau rhanbarthol yn darparu'r ffocws angenrheidiol i gydlynu ein hymdrechion ar y cyd', a hynny wrth gydnabod y caiff y gwaith cyflawni ei wneud ar lefel leol (Partneriaeth Ranbarthol).

Yn yr un modd, roedd yna gefnogaeth ar draws yr ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol a'r gweithdai i'r cynnig am i fuddsoddiad gael ei integreiddio ar draws y gwahanol feysydd polisi yn y dyfodol am fod yna deimlad y byddai hyn 'yn chwalu'r rhwystrau artiffisial sy'n helpu i greu dyblygu diangen ac yn dileu'r bylchau wrth i benderfyniadau polisi gael eu cyflawni ar wahân, gobeithio' (Undeb Llafur). Dadleuodd un ymateb i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol:

'am yn rhy hir, mae partneriaid ar draws y rhanbarth wedi gorfod cyflwyno ceisiadau ar gyfer ffrydiau cyfalaf a refeniw ar wahân mewn cystadleuaeth â'i gilydd, ac mae gan bob rhaglen ei threfniadau rheoli rhaglenni a meini prawf buddsoddi ei hun, a gwahanol ofynion gweinyddol hefyd. Mae hi'n anochel bod hyn wedi arwain at gyflwyno buddsoddiadau ar wahân, heb yr integreiddiad a'r cysondeb strategol sydd eu hangen i gael effaith ystyrlon ar economi'r rhanbarth' (Partneriaeth Ranbarthol).

Yn wir, cynigiodd ymatebwr o'r trydydd sector esiampl ymarferol o sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol: 'dylai fod modd caniatáu i un prosiect neu raglen gyrchu sawl ffrwd ariannu... er mwyn adlewyrchu'r manteision lu a ragwelir. Er enghraifft, caniatáu ar gyfer gwneud cais am gyllid i ddatblygu sgiliau twristiaeth ac adeiladu ill dau mewn un prosiect a thrwy un cais' (Y Trydydd Sector).

Mynegwyd safbwynt mwy cymysg yn yr ymarfer ymgysylltu o ran a oedd y dull gweithredu a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru'n rhoi ystyriaeth ddigonol i ddulliau gweithredu ac anghenion 'lleol'. Ar y naill law, mynegodd ymatebwyr o awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn benodol rywfaint o bryder bod y fframwaith gweithredu cyfredol yn ffafrio dulliau gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol o weithredu 'ar draul darpariaeth 'penodol iawn' sydd â lle o hyd' ac yr ystyriwyd ei fod wedi cael ei golli o fewn cylch ariannu cyfredol yr UE (Y Trydydd Sector). Dadleuodd yr ymatebion hyn 'nad yw dulliau gweithredu lleol at anghenion lleol yn cyd-fynd â'r dulliau gweithredu rhanbarthol' (Awdurdod Lleol) gan bledio'r achos dros adfer mentrau lleol ac o'r gwaelod i fyny i fynd i'r afael ag anghenion lleol.

Er nad oeddent o reidrwydd yn anghytuno â'r dull gweithredu cyffredinol a gynigiwyd, ymhlith y feirniadaeth a gododd dim mwy nag un neu ddau o ymatebwyr am y dull a amlinellwyd yn y papur polisi, roedd:

- nad yw'n mynd i ddiogon o fanylder o ran sut y caiff ei weithredu
- nad yw'n cynnig asesiad realistaidd o gyflawniadau cyllido cyfredol yr UE, y diffyg cynnydd mewn rhai ardaloedd a chyflwr yr economi yng Nghymru
- ei fod yn ystyried datblygiad a pholisi trefol mewn termau cyffredinol iawn yn unig
- nad yw'n rhoi digon o sylw i rôl llywodraeth leol, yn enwedig fel rheolwr buddsoddi
- nad yw'n cydnabod cyn lleied o wahaniaeth y mae cyllid blaenorol a chyfredol yr UE wedi ei wneud i economi Cymru.

Cafodd dau faes arall eu trafod yn gyson mewn ymateb i'r cwestiwn ymgysylltu cyntaf:

Roedd yna alw am i'r prosesau ar gyfer gwneud cais am fuddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol fod yn gyson â graddfa'r cyllid sydd ei angen, ac am i Lywodraeth Cymru roi ystyriaeth i argaeledd 'cyllid datblygu[10]' i'r rhai sydd ei angen. Er enghraifft, nododd un ymatebwr o'r trydydd sector y dylai'r prosesau a gyfer gwneud cais yn y dyfodol 'fod yn gymesur â chymhlethrwydd, risgiau a graddfa'r prosiect ... cais syml un cam ar gyfer prosiectau bach risg isel, a cheisiadau mwy cymhleth mewn sawl cam ar gyfer prosiectau graddfa fwy â mwy o risg. Fel elusen, byddem yn croesawu cyllid datblygu ar ôl y cam cyntaf am ei bod hi'n anodd i ni wario adnoddau pan fo risg' (Y Trydydd Sector).

Roedd y prif fater arall a gododd yr ymatebwyr yn ymwneud â'r gwrthdaro posibl rhwng y dull gweithredu a gynigiwyd yn nhermau cymryd risgiau mwy er mwyn annog arloesi ar y naill law, a'r ffocws newydd ar gryfhau deilliannau, monitro a gwerthuso ar y llall. Rhybuddiodd un o'r ymatebwyr y gallai'r olaf o'r rhain 'lesteirio arloesedd' (Addysg Uwch).

[10] Cyllid i'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu syniadau prosiect a cheisiadau am gyllid.

# 3. Yr Egwyddorion Allweddol

## 3.1 Cyflwyniad

Gofynnodd Llywodraeth Cymru am safbwyntiau partneriaid, rhanddeiliaid ac eraill ar yr egwyddorion a nodwyd yn y papur polisi. Daeth cyfanswm o 31 o ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol i law a oedd yn ateb y cwestiwn hwn yn benodol, ac roedd yna gydsyniad i bob pwrpas i'r egwyddorion allweddol a awgrymwyd: nododd cyfanswm o 16 o ymatebwyr yn benodol eu bod yn 'cytuno' â, neu'n 'croesawu' pob un o'r deg egwyddor a bennwyd yn y papur polisi. Gofynnwyd i'r bobl hynny a ymatebodd i'r arolwg ar-lein ateb deg cwestiwn caeedig, â phob un yn cyd-fynd ag egwyddor allweddol a bennwyd yn y papur polisi. Rhoddwyd cyfle iddynt hefyd wneud sylw ar bob un o'r deg egwyddor yma, a daeth rhwng 19 a 30 o sylwadau i law am bob un o'r deg egwyddor.

## 3.2 Egwyddor 1 – Gwaith partneriaeth

Roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ar-lein (67 o ymatebwyr neu 81 y cant) yn cytuno, a llond llaw (5 o ymatebwyr neu 6 y cant) yn anghytuno â'r egwyddor o gryfhau gwaith partneriaeth trwy bartneriaethau strategol, cadarn a chynhwysol.

**Tabl 3.1: Cydsyniad ag Egwyddor 1 - Cryfhau gwaith partneriaeth trwy bartneriaethau strategol, cadarn a chynhwysol**

| | Nifer | Cyfran |
|---|---:|---:|
| Cytuno'n gryf | 32 | 39% |
| Cytuno | 35 | 42% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 10 | 12% |
| Anghytuno | 1 | 1% |
| Anghytuno'n gryf | 4 | 5% |
| Dim ateb | 1 | 0% |
| Cyfanswm | 83 | 100% |

Ffynhonnell: Ymatebion i'r arolwg ar-lein (83 ymateb)

Daeth 20 o ymatebion penagored ar-lein i law, a thrafododd 14 o'r ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yr egwyddor hon yn uniongyrchol. Nododd chwech o'r ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol eu bod yn cytuno â'r egwyddor hon, a nododd y rhan fwyaf o'r lleill ei bod yn egwyddor hanfodol ar gyfer y dyfodol. Roedd y ddwy thema allweddol a drafodwyd gan y ddau fath o ymatebwyr yn ymwneud â'r angen am adolygu'r strwythur yn ogystal ag aelodaeth partneriaethau strategol.

Awgrymodd pedwar ymatebwr y byddai'n briodol adolygu strwythurau partneriaeth cyfredol er mwyn 'sicrhau eu bod yn glir am eu rolau a'u hamcanion, a bod y rhain yn cael eu halinio'n llwyr er mwyn cyflawni'r strategaeth genedlaethol’ (ymateb ar-lein). Dadleuodd un o'r ymatebwyr ar-lein 'hwyrach nad y sefydliadau a'r ffocws gofodol sy'n bodoli eisoes yw'r dull gweithredu mwyaf priodol nac effeithiol o gyflawni yng Nghymru ar ôl BREXIT.' Awgrymodd dau o'r ymatebwyr ar-lein y dylai unrhyw newidiadau i'r trefniadau partneriaeth gadw unrhyw arferion da cyfredol sy'n bodoli eisoes, ac enwyd y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus a phartneriaethau LEADER yn hynny o beth. Pwysleisiodd ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yr angen am gadw 'elfennau gorau'r seilwaith datblygu rhanbarthol cyfredol' wrth fanteisio ar y cyfle i golli rhywfaint o faich gor-fiwrocrataidd y dull gweithredu cyfredol’ (Y Sector Preifat).

Awgrymwyd hefyd y dylid rhoi ystyriaeth i gyfansoddiad ac aelodaeth unrhyw bartneriaeth strategol er mwyn sicrhau eu bod yn dod yn 'hollol gynhwysol a thryloyw' (ymateb ar-lein) ac na fyddent yn dibynnu ar bartneriaethau strategol a statudol yn unig. Galwodd un o'r ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol am i gynrychiolaeth partneriaid fod yn 'gyfrannol' i'r holl sectorau. Nododd dau o'r ymatebwyr ar-lein hefyd ei bod hi'n bwysig nad yw'r partneriaethau'n cael eu llethu gan 'agendâu personol' a 'buddiannau breintiedig'.

Yn hyn o beth, amlygodd dau o'r ymatebwyr ar-lein y sialensiau i gyfranogwyr o'r trydydd sector, ac eraill fel y rhai o'r sector preifat, wrth gyfrannu at waith partneriaeth a 'rhoi mewnbwn rhydd i bolisi cyhoeddus' yng ngoleuni'r pwysau sydd ar eu hadnoddau. Yn hyn o beth, galwyd am glustnodi a diogelu 'hwyluswyr' i gynorthwyo a hyrwyddo cyfranogaeth gymunedol o fewn y partneriaethau strategol hyn.

## 3.3 Egwyddor 2 – Dull gweithredu ar sail rhaglenni tymor-hir, aml-flwydd

Roedd dros dri chwarter y rhai a ymatebodd i'r arolwg ar-lein (64 ymatebwr neu 77 y cant) yn cytuno, a llond llaw (5 ymatebwr neu 6 y cant) yn anghytuno â'r egwyddor o ganolbwyntio ar y tymor hir trwy ddull gweithredu ar sail rhaglenni aml-flwydd, er mwyn rhoi hyder i fuddsoddwyr.

**Tabl 3.2: Cydsyniad ag Egwyddor 2 - Ffocws tymor-hir ar ffurf dull gweithredu sy'n seiliedig ar raglenni aml-flwydd, er mwyn rhoi hyder i fuddsoddwyr**

| | Nifer | Cyfran |
|---|---:|---:|
| Cytuno'n gryf | 28 | 34% |
| Cytuno | 36 | 43% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 13 | 16% |
| Anghytuno | 1 | 1% |
| Anghytuno'n gryf | 4 | 5% |
| Dim ateb | 1 | 1% |
| Cyfanswm | 83 | 100% |

Ffynhonnell: Ymatebion i'r arolwg ar-lein (83 ymateb)

Daeth 19 o ymatebion penagored ar lein i law, gyda thri o'r rhain yn awgrymu nad oeddent yn deall y cwestiwn. Roedd un yn cwestiynu at bwy yr oedd y gair 'buddsoddwr' yn cyfeiri, a'r ddau arall yn beirniadu'r defnydd o jargon: 'Dydw i ddim yn gwybod beth yw dull gweithredu sy'n seiliedig  rhaglenni aml-flwydd, felly alla'i ddim â gwneud sylw.'

Trafododd rhyw ddeg o ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yr egwyddor arfaethedig yma'n uniongyrchol, ac roedd yna gytundeb unfrydol ar draws yr holl sectorau, ac o fewn y gweithdai a gynhaliwyd, â'r dull gweithredu a gynigiwyd. Nododd un o'r ymatebion o'r sector preifat i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol 'byddem yn gefnogol iawn o'r egwyddor o ddull gweithredu sy'n seiliedig ar raglenni aml-flwydd' (Y Sector Preifat). Dadleuodd yr ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol y byddai'r ymrwymiad i raglenni tymor-hir ac aml-flwydd yn creu 'sefydlogrwydd', 'sicrwydd o ran cynllunio strategol a gweithredol' ac y byddai'n cadarnhau 'hyder buddsoddwyr'.

Roedd yr ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yn awgrymu bod angen diffinio beth a olygir wrth ddull gweithredu 'tymor-hir' am fod ymateb un awdurdod lleol yn tybio bod hyn yn gyson ag amserlenni rhaglenni cyllid cyfredol yr UE, tra awgrymodd ymateb arall gan bartneriaeth ranbarthol y dylai fod yn hirach:

'Gobeithio y bydd LlC yn dod o hyd i ryw fodd o efelychu'r cyfnodau rhaglen saith blwydd o hyd sydd wedi nodweddu rhaglenni'r UE ers 1994' (Awdurdod Lleol).

'mae dull gweithredu y fargen dinas a thwf o gyllid tymor hir dros 15 - 20 mlynedd yn wahanol iawn i gyfnodau rhaglenni byrrach cyfredol ESIF ac maent yn haeddu ystyriaeth ddifrifol... o ran buddsoddi rhanbarthol yn sgil Brexit' (Partneriaeth Ranbarthol).

O'r rhai a oedd yn cytuno â'r egwyddor, clustnododd dau ymateb ar-lein yr anawsterau sy'n gysylltiedig â chyflawni mentrau tymor byr â ffocws ar effeithiau tymor byr. Pwysleisiodd un ymateb ar-lein bwysigrwydd monitro a chyflawni gwerthusiadau ar ganol cyfnod mentrau tymor hir a ariennir er mwyn sicrhau eu bod yn perfformio'n effeithiol.

Un pwynt olaf a godwyd, sef un a nodwyd gan ddim mwy na thri ymatebwr i gyd, oedd yr angen am ymgorffori rhywfaint o hyblygrwydd i ddull gweithredu mor hirdymor. Rhybuddiodd yr ymatebwyr hyn yn erbyn datblygu rhaglen tymor hir nad oedd yn gallu ymateb i 'sialensiau a chyfleoedd newydd' (Y Sector Preifat) gan ddadlau bod WEFO wedi chwarae rôl hanfodol o fewn y rhaglenni a ariennir gan yr UE er mwyn caniatáu ar gyfer hyn: 'y risg ... yw y caiff ei gloi i mewn i'r darlun canfyddedig o'r byd ar ddiwrnod cyntaf y rhaglen' (ymateb ar-lein).

## 3.4 Egwyddor 3 – Cymysgu dulliau gweithredu cydategol sy'n seiliedig ar fuddsoddi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol

Roedd mwy na thri chwarter o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ar-lein (64 o ymatebwyr neu 78 y cant) yn cytuno, a degfed (8 ymatebwr neu 10 y cant) yn anghytuno â'r

egwyddor o gymysgu dulliau buddsoddi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol cydategol wedi eu hadeiladu o gylch rhanbarthau economaidd swyddogaethol.

**Tabl 3.3: Cytundeb ag Egwyddor 3 - Cymysgu dulliau gweithredu cydategol sy'n seiliedig ar fuddsoddi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wedi eu hadeiladu o gylch rhanbarthau economaidd swyddogaethol**

| | Nifer | Cyfran |
|---|---:|---:|
| Cytuno'n gryf | 28 | 34% |
| Cytuno | 36 | 43% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 10 | 12% |
| Anghytuno | 5 | 6% |
| Anghytuno'n gryf | 3 | 3% |
| Dim ateb | 1 | 1% |
| Cyfanswm | 83 | 100% |

Ffynhonnell: Ymatebion i'r arolwg ar-lein (83 ymateb)

Trafododd cyfanswm o 22 o'r ymatebion ar-lein a 22 o'r ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yr egwyddor hon yn uniongyrchol, ac amlinellir y materion a gododd amlaf isod.

Er eu bod yn derbyn y dull gweithredu a awgrymwyd, byddai dau o'r ymatebwyr yn croesawu eglurder pellach a 'mwy o fanylion' am y cysyniad hwn, gydag un yn awgrymu bod angen pennu'r perthnasau a'r cyfrifoldebau'n glir er mwyn 'osgoi dryswch' (ymateb ar-lein) ac un arall yn awgrymu bod ar 'bartneriaethau lleol' angen 'ddadansoddi pellach'. Mynegodd un ymateb ar-lein bryderon y byddai'r egwyddor hon yn creu 'gormod o haenau' ac awgrymodd un arall y byddai angen rheoli'r dull hwn yn ofalus trwy gorff cydlynu canolog fel WEFO. Awgrymodd ymateb pellach i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol y dylid cyfyngu ar y rôl genedlaethol i 'ddatblygu fframwaith hyblyg [i ganiatáu ar gyfer] datblygu blaenoriaethau a deilliannau rhanbarthol' (Awdurdod Lleol).

Awgrymwyd hefyd y byddai angen rhagor o eglurder i ddiffinio'r term 'rhanbarthau economaidd swyddogaethol' am fod gwahanol fathau o 'ranbarthau' eisoes yn bodoli

ar ffurf ardaloedd Bargen Ddinesig, Strwythurau Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaethau eraill fel Tasglu'r Cymoedd. Dadleuwyd bod rhai rhannau o Gymru eisoes wedi ymsefydlu mewn economïau a marchnadoedd llafur rhanbarthol (a rhai rhanbarthol trawsffiniol yn aml) y mae angen eu hystyried. Un pwynt terfynol a godwyd mewn perthynas â'r egwyddor hon (gan un ymateb ar-lein a chan gyfranogwyr mewn gweithdy) oedd y galw am gymryd materion traws-ffiniol i ystyriaeth wrth greu rhanbarthau economaidd swyddogaethol.

## 3.5 Egwyddor 4 – Rôl fwy i bartneriaethau rhanbarthol cynhwysol wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau

Roedd rhyw 73 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ar-lein (61 o ymatebwyr) yn cytuno, a degfed (8 ymatebwr neu 10 y cant) yn anghytuno â'r egwyddor fod partneriaethau rhanbarthol cynhwysol yn chwarae mwy o rôl wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau, wedi ei hwyluso gan aliniad cysylltiedig o ran adnoddau.

**Tabl 3.4: Cydsyniad ag Egwyddor 4 – Rôl fwy i bartneriaethau rhanbarthol cynhwysol wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau, wedi ei hwyluso gan aliniad adnoddau cysylltiedig**

| | Nifer | Cyfran |
|---|---:|---:|
| Cytuno'n gryf | 31 | 37% |
| Cytuno | 30 | 36% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 10 | 12% |
| Anghytuno | 5 | 6% |
| Anghytuno'n gryf | 3 | 3% |
| Dim ateb | 4 | 5% |
| Cyfanswm | 83 | 100% |

Ffynhonnell: Ymatebion i'r arolwg ar-lein (83 ymateb)

Darparodd cyfanswm o 27 o ymatebwyr ar lein a 12 o ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol sylwadau pellach ar yr egwyddor hon. Pwysleisiodd ryw chwech o'r ymatebion ar-lein sylwadau a wnaed eisoes am Egwyddorion 1 a 3, fel yr angen am i bartneriaethau rhanbarthol gymryd materion traws-ffiniol i ystyriaeth, iddynt gael eu

diffinio'n ddigonol, i roi ystyriaeth i a fyddent yn adeiladu ar strwythurau cyfredol neu rai newydd ac am iddynt dynnu ar aelodaeth ehangach yn hytrach na bod yn gyfyngedig i sefydliadau strategol a statudol. Yn yr un modd, gallai rhai o'r negeseuon allweddol a gyflëwyd gan yr ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol mewn perthynas ag Egwyddorion 1 a 3 fod yr un mor berthnasol yn hyn o beth.

Pwysleisiodd yr ymatebion ar-lein yn benodol bwysigrwydd y ffaith fod y partneriaethau rhanbarthol hyn yn 'gynhwysol' (amlygodd pump o'r ymatebion hyn). Pwysleisiodd y cyfranogwyr hyn yr angen am i'r aelodaeth fod yn ehangach na'r 'un hen rai' ac y dylent gynnwys busnesau o'r sector preifat, y trydydd sector a chynrychiolaeth o'r gymuned. Amlygodd un o'r ymatebwyr hyn bwysigrwydd galluogi unigolion a'r sefydliadau i ddod yn aelodau yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar y 'rhai sydd â'r capasiti i fynychu cyfarfodydd rhanbarthol'. Rhybuddiodd un arall am ddiffyg amser staff i fynychu partneriaethau o'r fath 'ar adeg o doriadau mewn cyllidebau a phan fo lefelau staffio'n cael eu cwtogi i'r lleiafswm posib' (ymateb ar-lein).

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr i'r ymgysylltiad ffurfiol yn gefnogol o'r cynnig bod partneriaethau rhanbarthol yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau buddsoddi. Mae'r adborth a roddwyd yn awgrymu bod angen diffinio cyfansoddiad y partneriaethau hyn, am i'r ymatebwyr awgrymu y gallai partneriaethau rhanbarthol esblygu ac adeiladu ar nifer o strwythurau partneriaeth cyfredol fel Byrddau Gwasanaethau Lleol, Strwythurau Partneriaeth Rhanbarthol a Bargeinion Dinas/Twf.

I bob pwrpas, roedd yr ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yn derbyn y gallai'r partneriaethau rhanbarthol, ym mha ffurf bynnag y cânt eu diffinio yn y pen draw, gymryd mwy o rôl yn nhermau cyllidebau dirprwyedig ac adnoddau rheoli ychwanegol. Awgrymodd rhyw dri o'r ymatebwyr hyn y dylid rhoi ystyriaeth bellach i 'faterion 'llywodraethu a chapasiti' cyn rhoi hyn ar waith. Mynegodd un ymatebwr rhywfaint o bryder bod rhai o'r partneriaethau sy'n bodoli eisoes, fel Bargeinion Dinas/Twf, yn dal i fod ar gyfnod cynnar o ran eu bodolaeth, ac y byddai angen datblygu rhagor arnynt cyn y gallent gymryd fwy o rôl fel yr oedd y papur polisi'n ei awgrymu.

## 3.6 Egwyddor 5 – Gwell integreiddiad rhwng gwahanol feysydd polisi â ffocws ar bobl a lleoedd

Roedd dros dri chwarter o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg ar lein (65 ymatebwr neu 78 y cant) yn cytuno ac un o bob deg (8 ymatebwr neu 10 y cant) yn anghytuno â'r egwyddor o integreiddio gwahanol feysydd polisi yn well â ffocws ar bobl a lleoedd, gan dynnu ynghyd gwahanol ffynonellau cyllid a modelau ariannu.

**Tabl 3.5: Cydsyniad ag Egwyddor 5 - Gwell integreiddiad rhwng gwahanol feysydd polisi â ffocws ar bobl a lleoedd, gan dynnu gwahanol ffynonellau cyllid a modelau ariannu ynghyd**

| | Nifer | Cyfran |
|---|---:|---:|
| Cytuno'n gryf | 39 | 47% |
| Cytuno | 26 | 31% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 10 | 12% |
| Anghytuno | 5 | 6% |
| Anghytuno'n gryf | 3 | 3% |
| Dim ateb | 2 | 2% |
| Cyfanswm | 83 | 100% |

Ffynhonnell: Ymatebion i'r arolwg ar-lein (83 ymateb)

Trafododd cyfanswm o 19 o ymatebion penagored ar-lein ac wyth ymateb i'r ymarfer ymgynghori ffurfiol yr egwyddor hon yn uniongyrchol. Roedd pob un o'r wyth ymateb i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yn croesawu cynnwys yr egwyddor hon ac roedd yna dderbyniad cyffredinol i symud i gyfeiriad model a fyddai'n cynnig 'un ffynhonnell cyllid ac un model ariannu' (yr arolwg ar-lein), er i un ymateb ar-lein rybuddio rhag treulio gormod o amser a gwario gormod o adnoddau 'yn ceisio ymuno â phethau yn lle cyflawni pethau'. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn derbyn y cysyniad o arddel dull gweithredu ar sail 'pobl a lleoedd' at fuddsoddi hefyd, gyda dau o'r ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu'n pwysleisio pwysigrwydd hyn.

Roedd un ymateb gan awdurdod lleol i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol, a oedd yn teimlo taw'r egwyddor hon oedd yr egwyddor 'pwysicaf', yn galw am i gyllid

buddsoddi rhanbarthol gael ei 'neilltuo ar gyfer datblygu economaidd, ac na ddylid ystyried ei fod yn gyllid Llywodraeth Cymru, fel bod modd ei ddefnyddio fel ffynhonnell cyllid cyfatebol' (Awdurdod Lleol). Yn gyferbyniol efallai, awgrymodd ymatebwr ar-lein arall ei bod yn amserol ystyried meysydd polisi nad ydynt yn dod o dan y polisi Cyllid Strwythurol ar hyn o bryd o fewn y dull gweithredu newydd yma, gan gynnwys tai, iechyd a gofal cymdeithasol.

Cynigiodd rhyw bedwar o ymatebion ar-lein syniadau ymarferol am sut y gellid gwireddu'r egwyddor hon. Awgrymwyd ei bod yn hen bryd sefydlu 'dull gweithredu pragmatig o gydgysylltu cyllid... a chydgysylltu meysydd polisi' a bod 'y trydydd sector wedi bod yn dadlau o blaid hyn ers amser'. Roedd yna rywfaint o gydnabyddiaeth am natur gaeth cyllid yr UE ar hyn o bryd, ac am hynny, roedd un o'r ymatebwyr ar-lein yn teimlo bod y drefn ariannu newydd yn cynnig 'gwir gyfle ... i gydweithio'n agosach'.

Awgrymodd un ymatebwr ar-lein bod angen dull gweithredu mwy cymysg at offerynnau ariannol, a soniodd am y newid graddol a welwyd yn y rhaglenni a ariannwyd gan yr UE - o gymorth grant i gyllid ar ffurf ad-daladwy.

## 3.7 Egwyddor 6 – Cryfhau'r ffocws ar ddeilliannau

Roedd 59 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ar-lein (59 o ymatebwyr) yn cytuno, ac 14 y cant (12 o ymatebwyr) yn anghytuno â'r egwyddor o gryfhau'r ffocws ar ddeilliannau, ond gan sicrhau eu bod yn cwmpasu mesurau o gylch anghydraddoldeb, lles, cynhwysiant a chynaliadwyedd amgylcheddol.



Gwefan: http://wefo.wales.gov.uk | E-bost: enquiries-wefo@wales.gsi.gov.uk | Ffôn: 0845 010 3355

**Tabl 3.6: Cydsyniad ag Egwyddor 6 - Cryfhau'r ffocws ar ddeilliannau, ond gan sicrhau eu bod yn cwmpasu mesurau o gylch anghydraddoldeb, lles, cynhwysiant a chynaliadwyedd amgylcheddol**

| | Nifer | Cyfran |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 30 | 36% |
| Cytuno | 29 | 35% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 9 | 11% |
| Anghytuno | 6 | 7% |
| Anghytuno'n gryf | 6 | 7% |
| Dim ateb | 3 | 4% |
| Cyfanswm | 83 | 100% |

Ffynhonnell: Ymatebion i'r arolwg ar-lein (83 ymateb)

Trafododd cyfanswm o 25 o ymatebion penagored ar-lein ac wyth ymateb i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yr egwyddor hon yn fanwl. Cododd hyn fel thema yn ystod y gweithdai hefyd. Dywedodd rhyw saith o ymatebwyr i'r ymarfer ymgynghori ffurfiol yn benodol eu bod yn croesawu'r argymhellion i gryfhau'r ffocws ar ddefnyddio dangosyddion o ddeilliannau, yn enwedig o ystyried y safbwynt fod y rhaglenni sy'n cael eu hariannu gan yr UE ar hyn o bryd yn dal i ganolbwyntio'n ormodol ar 'fewnbwn' ac 'allbwn'. Yn yr ystyr honno, awgrymwyd bod yr egwyddor hon yn cynnig y cyfle i gyrff cyflawni symud i ffwrdd oddi wrth diwylliant o 'dicio blychau', yr ystyriwyd ei fod yn bodoli ar draws mentrau a ariennir gan yr UE.

Awgrymodd dau ymatebwr y dylid alinio unrhyw ddeilliannau arfaethedig â'r nodau a'r dangosyddion a bennwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)[11] ac nad yw'r dull hwn o weithredu wedi cael ystyriaeth ddigonol yn y papur polisi: mae angen i'r peth 'gael ei gydblethu i bopeth a wnawn' (ymateb ar-lein). Galwodd un ymatebwr ar-lein hefyd am i ddeilliannau'r dyfodol adlewyrchu safonau iaith newydd Comisiynydd y Gymraeg a gyflwynwyd yn

[11] Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Cymru. Mae'r Ddeddf yn cynnwys pedair nod cyffredinol a 46 o ddangosyddion cenedlaethol.https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=en

2016[12]. Awgrymodd cyfranogwyr mewn gweithdy y dylai detholiad ehangach o fesurau gael eu clustnodi ar gyfer buddsoddiadau'r dyfodol er mwyn caniatáu ar gyfer mentrau i adrodd ar eu heffeithiau yn well.

Dadleuodd dau o'r ymatebwyr ar-lein, er ei bod yn fesur ar gyfer yr egwyddor benodol yma, bach iawn o ffocws a oedd yna ar gynaliadwyedd amgylcheddol yn y papur polisi ar y cyfan: 'ychydig iawn o sôn sydd yna yn y papur am gynaliadwyedd amgylcheddol'. Dadleuodd ymatebwr pellach i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol y dylai'r mesurau deilliant ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol gael eu hymestyn i gynnwys 'dulliau gweithredu carbon isel ac economi cylchol' (Y Trydydd Sector) lle bo modd.

Gofynnodd un o'r ymatebwyr o’r trydydd sector i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol o'r, yn ogystal â chyfranogwyr mewn gweithdy, bod deilliannau meddal yn cael eu hadlewyrchu'n well ar draws yr egwyddor hon, gan ddadlau y dylai fod yna 'ffocws ar sgiliau meddal, gan gynnwys gwell hyder, sgiliau cymdeithasol a sgiliau bywyd eraill' (Y Trydydd Sector). Roedd yr un ymatebwr (yn ogystal ag un ymatebwr ar-lein) yn galw am i Lywodraeth Cymru gymryd amseriad y deilliannau adrodd i ystyriaeth, am fod 'ar rai grwpiau targed angen ... ymyrraeth hwy i gyflawni deilliant' (Y Trydydd Sector).

Roedd un ymatebwr ar-lein a gwestiynodd y dull gweithredu’n awyddus i roi gair o rybudd: 'Mae angen pwyllo. Mae yna dueddiad naturiol i allu dangos gwerth ac effaith trwy fesur deilliannau, pan nad yw'r holl ddeilliannau'n hawdd eu mesur, ond maent oll yr un mor werthfawr â'i gilydd. Dylai'r deilliannau fod am fwy na dim ond swyddi a thwf, a dylai rhai ymyraethau fod yn gallu diffinio eu deilliannau eu hunain.’

Awgrymodd trafodaethau'r gweithdai hefyd bod angen sicrhau bod gwell cysondeb yn cael ei fabwysiadu o ran y dangosyddion diffiniol, a sicrhau bod systemau priodol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn casglu data ar draws Cymru gyfan.

[12] Gweler https://gov.wales/about/welshlanguagestandards/?lang=en

## 3.8 Egwyddor 7 – Cryfhau monitro a gwerthuso

Roedd ychydig yn llai na thri chwarter o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg ar-lein (59 o ymatebwyr neu 71 y cant) yn cytuno, ac 11 y cant (9 ymatebwr) yn anghytuno â'r egwyddor o gryfhau gwaith monitro a gwerthuso wrth symleiddio'r gofynion o ran tystiolaeth a sicrhau cyfranoldeb.

**Tabl 3.7: Cydsyniad ag Egwyddor 7 – Cryfhau gwaith monitro a gwerthuso wrth symleiddio’r gofynion o ran tystiolaeth a sicrhau cyfranoldeb**

| | Nifer | Cyfran |
|---|---:|---:|
| Cytuno'n gryf | 32 | 39% |
| Cytuno | 27 | 33% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 12 | 14% |
| Anghytuno | 5 | 6% |
| Anghytuno'n gryf | 4 | 5% |
| Dim ateb | 3 | 4% |
| Cyfanswm | 83 | 100% |

Ffynhonnell: Ymatebion i'r arolwg ar-lein (83 ymateb)

Cafwyd cyfanswm o 30 o ymatebion penagored ar-lein, a thrafododd saith ymateb i'r ymarfer ymgynghori ffurfiol yr egwyddor hon yn uniongyrchol. Nododd nifer fechan o ymatebwyr yn benodol bod croeso i'r ffocws ar 'gyfranoldeb' o fewn yr egwyddor hon, ac yn wir, roedd un ymatebwr ar-lein yn credu y dylai hyn gynnwys symud o gyfeiriad proses ddilysu 100 y cant i gyfeiriad 'dull o archwilio sy'n fwy seiliedig ar risg' am yr ystyriwyd bod y cyntaf o'r rhain yn 'aneffeithiol ac nad yw'n ychwanegu unrhyw werth'.

Yn wir, ystyriwyd bod gofynion cymhwyster a thystiolaethu cyfredol yr UE yn 'feichus' (dau ymatebwr ar-lein) ac roedd yna groeso i'r symudiad i gyfeiriad 'cwtogi ar' a symleiddio' y gwaith papur sydd ynghlwm wrth gyflawni (o leiaf pump ymatebwr). Dywedodd un o'r ymatebwyr ar-lein yma 'mae gofynion tystiolaeth yr ESF yn or-gymhleth, felly mae symud i ffwrdd oddi wrth y gorbwysais yma ar waith papur a'r canllawiau hirfaith yn rhywbeth i'w groesawu'. Gofynnodd ymatebwr arall o'r trydydd

sector i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol am i'r gofynion gael eu gwneud 'yn briodol i'r grŵp targed ... gan gadw'r unigolyn wrth galon popeth' (Y Trydydd Sector).

Roedd yna ddymuniad ar draws yr ymatebwyr i'r arolwg ar-lein a'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol a gyflwynodd sylwadau ar yr egwyddor hon i weld symudiad tuag at ddefnyddio dulliau digidol ac electronig o dystiolaethu deilliannau (a amlygwyd gan bedwar ymatebwr) yn hytrach na defnyddio 'llofnodion copi gwlyb' ar bapur. Awgrymodd un ymatebwr ar-lein hyd yn oed symud tuag at ddefnyddio delweddau wedi eu lanlwytho a recordiadau o dystiolaeth lafar.

Roedd un ymatebwr ar-lein yn teimlo ei bod hi'n bwysig rhoi systemau monitro ar waith ar gychwyn unrhyw raglen er mwyn osgoi gorfod addasu'r gweithdrefnau ar ôl cychwyn, fel y gwelwyd yn ystod rhaglenni cyllido'r UE.

At hynny, galwodd cyfranogwyr y gweithdai (yn ogystal ag un o'r ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol) am i'r gwaith o fonitro a gwerthuso unrhyw ddeilliannau prosiect fod yn ymarfer parhaus y tu hwnt i ddiwedd y prosiect ei hun er mwyn 'mesur deilliannau tymor hwy ar ôl i'r timau prosiect gael eu diddymu' (Y Trydydd Sector). Aeth cyfranogwyr y gweithdai ymhellach, gan ddadlau y gellid delio â gwerthuso ar lefel ranbarthol neu genedlaethol yn hytrach nag ar lefel prosiect fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

## 3.9 Egwyddor 8 – Symleiddio rheolau a meini prawf

Roedd bron i 82 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ar-lein (68 o ymatebwyr) yn cytuno â'r egwyddor o symleiddio'r rheolau a'r meini prawf, a hynny wrth sicrhau triniaeth deg a chyfartal i bawb. O'r rhain, roedd rhyw ddau o bob tri (46 o ymatebwyr) yn cytuno'n gadarn â'r egwyddor. Dim ond 7 y cant (6 ymatebwr) oedd yn anghytuno.

**Tabl 3.8: Cydsyniad ag Egwyddor 8 - Symleiddio'r rheolau a'r meini prawf, wrth sicrhau triniaeth deg a chyfartal i bawb**

| | Nifer | Cyfran |
|---|---:|---:|
| Cytuno'n gryf | 46 | 55% |
| Cytuno | 22 | 27% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 7 | 8% |
| Anghytuno | 1 | 1% |
| Anghytuno'n gryf | 5 | 6% |
| Dim ateb | 2 | 3% |
| Cyfanswm | 83 | 100% |

Ffynhonnell: Ymatebion i'r arolwg ar-lein (83 ymateb)

Daeth 21 o ymatebion penagored ar-lein i law ac ystyriodd nawr o ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yr egwyddor hon. Roedd yr ymatebion yn cefnogi'r egwyddor hon ar y cyfan. Yn wir, roedd llawer o'r rhai a fynychodd y gweithdai ymgysylltu'n credu, er bod y rheolau cyfredol yn feichus ac yn gaeth, bod yna angen o hyd i fabwysiadu dull gweithredu priodol o lywodraethu a sicrhau cydymffurfiaeth yn y dyfodol, ac y dylid ffrwyno a rheoli hyn yn ganolog o hyd.

Nododd o leiaf tri o'r ymatebwyr ar-lein yn benodol y byddent yn croesawu symleiddio'r rheolau a'r meini prawf, a galwodd dau ymatebwr ar-lein arall am i'r rhain gael eu sefydlu o'r cychwyn cyntaf yn hytrach na chael eu newid ar ôl cychwyn unrhyw gyfnod cyflawni. Roedd un o'r ymatebwyr ar-lein yn credu y dylid cymryd gofal fel na fyddai symleiddio'r rheolau a'r meini prawf yn arwain at unrhyw ostyngiad yn ansawdd yr ymyrraeth.

Awgrymodd ymatebwyr i’r ymarfer ymgysylltu ffurfiol y gallai fod yn fuddiol i Lywodraeth Cymru ystyried datblygu set o egwyddorion gweithredu er mwyn sicrhau triniaeth deg a chyfartal fel na fyddai unrhyw gynulleidfa benodol o dan anfantais, fel mentrau cymdeithasol bach, busnesau preifat neu ardaloedd daearyddol ymylol. Yn wir, dadleuodd un o'r ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol o blaid yr angen am i'r dull gweithredu hwn o fynd ati fod yn gyfrannol o ran y byddai'n briodol cyflwyno 'lefel briodol o fonitro ar gyfer cyllid i grwpiau cymunedol llai' (Awdurdod Lleol).

Awgrymodd dau o'r ymatebwyr ar-lein y gallai'r dull o fynd ati elwa ar y saith egwyddor a fabwysiadwyd o fewn y rhaglen LEADER, sef dulliau gweithredu o'r gwaelod i fyny, partneriaeth, integreiddio, arloesi, cydweithio, rhwydweithio ac yn seiliedig ar ardaloedd penodol.

## 3.10 Egwyddor 9 – Mentro’n fwy i hyrwyddo arloesi a denu buddsoddiad o'r sector preifat

Roedd 71 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ar-lein (59 ymatebwr) yn cytuno ac 11 y cant (9 ymatebwr) yn anghytuno â'r egwyddor o gymryd risgiau mwy i hyrwyddo arloesi a denu buddsoddiad o'r sector preifat.

**Tabl 3.9: Cydsyniad ag Egwyddor 9 – Mentro’n fwy i hyrwyddo arloesi a denu buddsoddiad o'r sector preifat**

| | Nifer | Cyfran |
|---|---:|---:|
| Cytuno'n gryf | 33 | 40% |
| Cytuno | 26 | 31% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 13 | 16% |
| Anghytuno | 4 | 5% |
| Anghytuno'n gryf | 5 | 6% |
| Dim ateb | 2 | 3% |
| Cyfanswm | 83 | 100% |

Ffynhonnell: Ymatebion i'r arolwg ar-lein (83 ymateb)

Cafwyd cyfanswm o 27 o ymatebion penagored ar-lein, ac roedd saith o ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yn delio â'r egwyddor hon yn uniongyrchol. Trafodwyd y mater yn yr achlysuron gweithdy hefyd.

Un o'r pwyntiau allweddol a drafododd yr ymatebwyr oedd yr angen am sicrhau bod unrhyw risgiau a gymerir yn cael eu 'pwyso a'u mesur' a'u 'rheoli' (nododd pedwar o’r ymatebwr hyn). Dadleuodd un o'r ymatebwyr y dylai risgiau gael eu hwyluso o fewn dull gweithredu sy'n seiliedig ar lywodraethu priodol a diwydrwydd dyladwy er mwyn sicrhau y gellir diogelu buddsoddiad gan y sector preifat cyn gynted ag y caiff ei

gynnig. Awgrymodd un o'r ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol bod y cysyniad o 'gyfrannedd' yn bwysig hefyd yn nhermau cymryd risgiau h.y. y byddai yna gwmpas i gymryd risgiau mwy gyda phrosiectau a ariennir ar raddfa fach yn hytrach na rai mwy.

Er eu bod yn derbyn yr egwyddor, roedd yna ryw awgrym o'r ymatebion ar-lein bod rôl y trydydd sector wrth gynhyrchu buddsoddiad (un ymatebwr), a rhan y cyhoedd ar led fel darpar-fuddsoddwyr mewn prosiectau cymunedol (un ymatebwr) wedi mynd ar goll o fewn yr egwyddor hon. Roedd un ymatebwr yn teimlo hefyd bod rhaglenni cyfredol yr UE, ar ffurf offerynnau ariannol ad-daladwy, eisoes yn llwyddiannus wrth ddenu buddsoddiad o'r trydydd sector, ac y dylid adeiladu ar yr arfer dda yma e.e. 'Denodd cronfa JEREMIE dros £200m o gyllid trosoledd y sector preifat yn erbyn cronfa o £157.5m' (Y Sector Preifat).

Y teimlad oedd bod rhaglenni a gweithrediadau cyfredol yr UE eisoes wedi mabwysiadu elfen o risg trwy ymyraethau fel y rhaglen LEADER (tri ymatebwr) ac offerynnau ariannol ad-daladwy (un ymatebwr).

Nodwyd hefyd (gan un ymatebwr ar-lein a chyfranogwyr mewn gweithdy) y byddai'n her gwireddu'r egwyddor hon o gymryd diwylliant 'cyndyn i fentro' Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill. Ystyriwyd bod hyn wedi cael ei fwydo'n rhannol gan y diffyg hyblygrwydd o ran targedau a ariennir gan yr UE. Pwysleisiodd yr ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yr angen am 'fwy o hyblygrwydd' a 'newid mewn diwylliant' wrth weithio gyda'r sector preifat, gydag un o'r ymatebwyr hyn yn nodi bod 'rhaglenni blaenorol wedi cael eu llyffetheirio wrth i ddull gweithredu o'r fath gael ei hyrwyddo' (Awdurdod Lleol). Nododd yr un ymatebwr y byddai angen 'cronfa fethiant' wrth hybu mwy o risg, am na fyddai pob ymyrraeth a fyddai'n cael ei hariannu yn gweithio.

Dadleuodd ymatebwr arall o'r trydydd sector i ymarfer ymgysylltu ffurfiol na ddylid cyfyngu arloesi i fuddsoddiad yn unig, ond y dylid ei ymestyn i 'lywodraethu, strwythurau partneriaeth, cyflawni a monitro a gwerthuso hefyd' (Y Trydydd Sector).

## 3.11 Egwyddor 10 – Hybu cydweithio trawsffiniol

Roedd y mwyafrif helaeth o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ar-lein (66 o ymatebwyr neu 80 y cant) yn cytuno, a dim ond 5 y cant (4 ymatebwr) a oedd yn anghytuno â'r egwyddor o hyrwyddo cydweithio traws-ffiniol ledled Cymru, y DU, yr UE a'r tu hwnt.

**Tabl 3.10: Cydsyniad ag Egwyddor 10 - Hybu cydweithio trawsffiniol ar draws Cymru, y DU, yr UE a'r tu hwnt**

| | Nifer | Cyfran |
|---|---:|---:|
| Cytuno'n gryf | 52 | 63% |
| Cytuno | 14 | 17% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 10 | 12% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Anghytuno'n gryf | 4 | 5% |
| Dim ateb | 3 | 4% |
| Cyfanswm | 83 | 100% |

Ffynhonnell: Ymatebion i'r arolwg ar-lein (83 ymateb)

Daeth 22 o ymatebion penagored ar-lein i law, a thrafododd rhyw bump o'r ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol y mater hwn yn benodol. Cododd y mater fel thema o fewn y gweithdai ymgysylltu hefyd. Mae natur yr ymatebion yn awgrymu bod yr holl gyfranogwyr yn croesawu'r egwyddor hon. Dadleuodd pedwar ymatebwr ar-lein bod yr egwyddor hon yn 'hanfodol' am amryw o resymau, gan gynnwys yr angen am i Gymru fod yn 'chwaraewr rhyngwladol' a diogelu amrywiaeth y blaned, ac roedd pob un o'r pump ymateb i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yn cefnogi'r cynnig.

Yn benodol, roedd pedwar o'r ymatebwyr yn teimlo ei bod hi'n bwysig iawn sicrhau bod Cymru'n 'dysgu' gan ardaloedd a gwledydd eraill. Nododd un o'r ymatebwyr hyn 'ei bod hi'n gwneud synnwyr dysgu gan ardaloedd eraill yn y DU, yr UE a'r tu hwnt sydd eisoes yn gwneud beth hoffem ni ei wneud'. Yn yr un modd, nodwyd y byddai rhannu arferion da â gwledydd eraill (dau ymatebwr) yn 'arbed llawer o amser a chyllid'.



Gwefan: http://wefo.wales.gov.uk | E-bost: enquiries-wefo@wales.gsi.gov.uk | Ffôn: 0845 010 3355

Pwysleisiodd o leiaf dau ymatebwr bwysigrwydd meithrin 'perthnasau', 'partneriaethau' a 'chysylltiadau' â gwledydd eraill er mwyn cyflawni'r egwyddor hon. Cyfeiriodd dau ymateb i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol gan awdurdodau lleol at ymrwymiad parhaus Cymru mewn rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC) yn benodol.

# 4. Blaenoriaethau ac amcanion craidd ar gyfer buddsoddi

## 4.1 Cyflwyniad

Holwyd barn cyfranogwyr yr ymarfer ymgysylltu ffurfiol a'r bobl a gymerodd ran yn y gweithdai am y blaenoriaethau a'r amcanion cenedlaethol ar gyfer buddsoddi y dylai Llywodraeth Cymru eu pennu.

## 4.2 Meysydd buddsoddi

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ar-lein restru deuddeg Amcan Lles Llywodraeth Cymru yn nhrefn blaenoriaeth. Fel y mae Tabl 4.1 yn ei ddangos, o'r 76 ymatebwr a atebodd y cwestiwn hwn, ystyriwyd taw'r amcan pwysicaf oedd cynorthwyo pobl a busnesau i yrru ffyniant, wedyn darparu gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd sy'n addas at y dyfodol. Roedd y rhan fwyaf o sylwadau'r ymatebwyr ar-lein (18 i gyd) yn awgrymu bod gosod y blaenoriaethau a'r amcanion hyn yn eu trefn wedi bod yn 'anodd' (pedwar ymateb) o gymryd bod 'pob un ohonynt yn bwysig' neu'r 'un mor bwysig â'i gilydd' (wyth ymateb) a bod yr ymarfer 'ychydig bach fel gorfod dewis eich hoff blentyn'.

**Tabl 4.1: Gosod Amcanion Lles Llywodraeth Cymru yn Nhrefn Blaenoriaeth**

| Trefn | Sgôr[13] | Amcan Lles |
|---|---|---|
| 1 | 612 | Cynorthwyo pobl a busnesau i yrru ffyniant |
| 2 | 602 | Darparu gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd sy'n addas at y dyfodol |
| 3 | 597 | Hyrwyddo iechyd da a lles i bawb |
| 4 | 561 | Creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell |
| 5 | 555 | Taclo anghydraddoldeb rhwng y rhanbarthau a hybu gwaith teg |
| 6 | 553 | Gyrru twf cynaliadwy a brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd |
| 7 | 535 | Cynorthwyo pobl ifanc i fanteisio i'r eithaf ar eu potensial |
| 8 | 443 | Meithrin uchelgais a hyrwyddo dysgu am oes |
| 9 | 429 | Darparu seilwaith modern a chysylltiedig |
| 10 | 384 | Taclu pawb â'r sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid |
| 11 | 376 | Meithrin cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n wydn |
| 12 | 281 | Hybu ac amddiffyn lle Cymru yn y byd |

Ffynhonnell: Ymatebion ar-lein (76 ymatebwr)

Deliodd ryw 30 o'r ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol â'r cwestiwn hwn yn benodol ac roedd cynnwys yr ymatebion hyn yn cynnig rhai egwyddorion allweddol a ddylai gael eu mabwysiadu i fwydo'r gwaith o glustnodi blaenoriaethau craidd, yn cyflwyno awgrymiadau o ran pa amcanion craidd a ddylai gael eu hystyried, a chodwyd ambell i bryder neu fwlch hefyd. Ychydig iawn o'r ymatebion a glustnododd feysydd buddsoddi roedden nhw'n teimlo na ddylent gael cefnogaeth, neu yr oeddent yn eu hystyried i fod yn flaenoriaethau is ar gyfer buddsoddi.

Awgrymodd yr ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol amrywiaeth eang o feysydd blaenoriaeth, a dangosir y rhain yn Ffigur 4.1. Mae'r ffigur yn dangos bod rhai meysydd blaenoriaeth fel 'sgiliau', 'busnes' a 'gwledig' yn cael eu henwi'n amlach nag

[13] Cyfrifiad wedi ei bwysoli yw'r sgôr. Mae gan yr eitemau a restrir uchaf werth uwch na'r rhai sy'n dilyn, ac mae'r sgôr yn swm o'r holl gyfrifiadau wedi eu pwysoli yn eu trefn.

eraill [14] a hynny, o bosibl, yn groes i drefn rhai o'r amcanion lles (e.e. sgiliau) a bennwyd yn Nhabl 4.1.

**Ffigur 4.1: Y meysydd buddsoddi a gynigiodd yr ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol**




Ffynhonnell: Ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol

## 4.3 Yr egwyddorion allweddol

Roedd un o'r meysydd trafod allweddol yn ymwneud â phennu lefel y blaenoriaethau a'r amcanion ariannu. O'r rhai a drafododd y mater, roedd yr ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yn cytuno, ar y cyfan, y dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r partneriaid allweddol, gymryd y blaen wrth bennu amcanion strategol cenedlaethol, tra gellid datganoli'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi i lefelau rhanbarthol a lleol. Yn wir, awgrymodd un o'r ymatebwyr hyn y dylid sefydlu amcanion strategol cenedlaethol trwy fforwm tebyg i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni fel 'bod y penderfyniadau a wneir yn benderfyniadau partneriaeth' (Awdurdod Lleol). Dyma rhai o'r safbwyntiau a fynegwyd:

[14] Yn ogystal â'r blaenoriaethau a glustnodwyd amlaf, cyflawnwyd dadansoddiad o'r holl eiriau allweddol a bennir yn Nhabl 4.1 hefyd.

'Nid ydym yn dadlau na ddylai Llywodraeth Cymru bennu'r blaenoriaethau datblygu economaidd ar gyfer Cymru, ond dylai'r rhain fod yn ganllawiau lefel uchel yn hytrach na bod yn gyfarwyddol' (Awdurdod Lleol).

'Gweithio o fewn amcanion ehangach, lefel uchel wedi eu pennu gan y llywodraeth - wedyn mae'r rhanbarthau'n cael eu hymbweru i sefydlu'r blaenoriaethau a'r amcanion mewn partneriaeth, gan glustnodi'r cymysgedd mwyaf priodol o ddulliau o weithredu o ran buddsoddi, a’r modelau cyflawni sy'n gweddu orau i amgylchiadau rhanbarthol a lleol' (Partneriaeth Ranbarthol).

Roedd y materion eraill a godwyd gan dim mwy na phedwar ymatebwr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yr un yn ymwneud â dyrannu buddsoddiad er mwyn:

- sicrhau y ceir y lefel uchaf bosibl o elw ar y buddsoddiad a wneir yng Nghymru (pedwar ymateb)
- caniatáu ar gyfer arbrofi gydag atebion creadigol a'u cyflawni (tri ymateb)
- diogelu cymaint â phosibl o gyllid trosoledd o ffynonellau eraill (dau ymateb)
- ystyried graddfa a maint y methiant i'r farchnad (un ymateb)
- taro'r cydbwysedd iawn rhwng buddsoddi ar sail 'angen' ac ar sail 'cyfleoedd' economaidd (un ymateb).

## 4.4 Bylchau allweddol

Yn eu hymateb i'r cwestiwn yma, tynnodd nifer fechan o ymatebwyr sylw at dri maes blaenoriaeth a oedd wedi cael eu hepgor o'r amcanion buddsoddi a drafodwyd yn y papur polisi yn eu barn nhw, sef:

- yr Economi Sylfaenol[15] (pedwar ymateb). Dadleuwyd bod yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru'n arbennig o ddibynnol ar yr Economi Sylfaenol, gydag un ymatebwr yn dadlau 'er ei fod yn cael ei gydnabod yn y Cynllun Gweithredu Economaidd, mae'n amlwg yn ei absenoldeb o'r ddogfen ymgynghori Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit' (Addysg Uwch)

[15] Mae'r Economi Syflaenol yn cynnwys gweithgareddau busnes pob dydd fel adwerthu, gofal a'r diwydiannau bwyd

- yr Economi Gylchol[16] (dau ymateb) gydag un yn dadlau 'rydyn ni'n credu y dylai integreiddio buddion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol trwy ddefnyddio dull gweithredu ar sail economi gylchol at ddatblygu economaidd yng Nghymru fod yn flaenoriaeth graidd ar gyfer buddsoddi' (Y Trydydd Sector)
- angen cymunedau (un ymateb). Roedd yr ymatebwr hwn yn poeni am y diffyg pwyslais ar 'angen cymunedau, yn arbennig yn yr ardaloedd gwledig; a dadleuodd bod angen i'r dull gweithredu ar sail buddsoddi fynd ati mewn ffordd 'o'r gwaelod i fyny' 'er mwyn clustnodi ac ymateb i angen cymunedau (Awdurdod Lleol).

[16] System adfywiol yw'r Economi Gylchol lle mae'r mewnbwn o ran adnoddau a cholledion o ran gwastraff, allyriannau ac ynni yn cael eu lleiafu.

# 5. Rolau a chyfrifoldebau

## 5.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn tynnu ar safbwyntiau ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol a chyfranogwyr y gweithdai am y rolau a'r cyfrifoldebau y dylai Llywodraeth Cymru, partneriaethau rhanbarthol a phartneriaethau lleol eu cyflawni o fewn y dull gweithredu newydd mewn perthynas â buddsoddi rhanbarthol.

## 5.2 Llywodraeth Cymru

Mynegodd yr ymatebwyr i’r ymarfer ymgysylltu ffurfiol a chyfranogwyr y gweithdai safbwynt cadarn y dylai rôl Llywodraeth Cymru o fewn y dull gweithredu newydd o ran buddsoddi rhanbarthol fod wrth bennu 'strategaeth gyffredinol', 'fframwaith cenedlaethol' a/neu'r 'cyfeiriad cyffredinol' o ran buddsoddi rhanbarthol at y dyfodol.

Cyfleodd yr ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol wahanol safbwyntiau o ran a ddylai Llywodraeth Cymru gymryd cyfrifoldeb llawn dros wneud penderfyniadau buddsoddi a chyflawni rhaglen fonitro (fel y mae WEFO yn ei wneud ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu ariannu gan yr UE ar hyn o bryd). Roedd dau ymatebwr o blaid y dull gweithredu yma, ac awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ei ystyried ei hun yn 'frocer cenedlaethol' â chyfrifoldeb dros oruchwylio'r gwaith o gymeradwyo a monitro buddsoddiadau:

'Dylai Llywodraeth Cymru gymryd rôl comisiwn yr UE yn nhermau goruchwylio, gan ddefnyddio'r arbenigedd sy'n bodoli yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Dylai WEFO barhau â'r rôl o ymgynghori ar raglenni a’u cyflwyno, gwerthuso ceisiadau am gyllid, monitro'r rhaglenni a gwerthuso perfformiad ar ran Gweinidogion Cymru' (Y Sector Preifat).

Awgrymodd eraill y dylid cyfyngu ar rôl Llywodraeth Cymru er mwyn clustnodi cyfleoedd ariannu ar lefel strategol a graddfa fawr/Cymru-gyfan, gan ddirprwyo cyfrifoldeb i'r partneriaethau rhanbarthol a lleol ar gyfer penderfyniadau ariannu ar y lefel honno.

Cododd tri ymatebwr gwestiynau o ran a ddylai Llywodraeth Cymru chwarae rhan wrth gyflawni mentrau buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol. Roedd y ddau awdurdod lleol, a'r llall o'r sector addysg bellach, yn cwestiynu a fyddai hyn yn arwain at 'wrthdaro' gan gynghori y dylid cyfyngu ar ei rôl cyflawni i brosiectau cenedlaethol yn unig. Dywedodd un o'r ymatebwyr hyn: 'yn nhermau rôl Llywodraeth Cymru, byddai chwarae rhan ar lefel goruchwylio a chyflawni gweithgarwch yn uniongyrchol yn dipyn o her a gallai fod yna wrthdaro buddiannau' (Awdurdod Lleol).

Mynegodd o leiaf dau ymatebwr ddymuniad i weld gwell gwaith cydweithredol ar draws adrannau'r llywodraeth, yn ogystal â galw am 'ddull gweithredu tîm' wrth weithio mewn partneriaeth ar sail ranbarthol.

At hynny, awgrymodd ymatebwyr unigol y dylai Llywodraeth Cymru gymryd cyfrifoldeb dros roi 'trefniadau llywodraethu priodol' ar waith (Undeb Llafur) a chasglu a rhannu 'arferion gorau' (Y Trydydd Sector).

## 5.3 Partneriaethau rhanbarthol

Soniodd yr ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yn gyson fod nifer o bartneriaethau rhanbarthol (a lleol) rhagorol eisoes yn bodoli, ac am fod rhai o'r rhain wedi hen fwrw gwreiddiau ac yn gweithredu'n effeithiol, y gallent chwarae rhan amlycach mewn dulliau buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol. Ymhlith yr esiamplau o bartneriaethau rhanbarthol a enwyd roedd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Partneriaeth Tyfu'r Canolbarth, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Rhanbarthau Bargeinion Dinas a Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus.

Fodd bynnag, awgrymodd tri ymatebwr bod angen i'r trefniadau partneriaeth cyfredol gael eu 'symleiddio a'u rhesymoli' er mwyn darparu 'strwythur mwy effeithiol ar gyfer cydweithio' at y dyfodol (Awdurdod Lleol) a'u gwneud yn 'fwy priodol ar gyfer defnyddio cyllid ar ôl Brexit' (Awdurdod Lleol). Amlygodd un ymatebwr arferion gorau Partneriaethau Menter Lleol (LEPs) yn Lloegr fel model posibl i Gymru yn hynny o beth.

Galwodd partneriaethau rhanbarthol ac awdurdod lleol ar Lywodraeth Cymru i ystyried dirprwyo mwy o gyfrifoldeb dros y 'risg a'r atebolrwydd' sy'n gysylltiedig â buddsoddi rhanbarthol i'r partneriaethau rhanbarthol. Er enghraifft:

‘Dylid rhoi perchnogaeth i bartneriaethau rhanbarthol i ddarparu buddsoddiadau rhanbarthol a lleol. Mae gan y rhanbarthau hanes llwyddiannus o gyflawni, a byddent yn croesawu dyraniadau dangosol rhanbarthol i gyflawni deilliannau cymeradwy' (Awdurdod Lleol).

Awgrymodd un bartneriaeth ranbarthol bod partneriaethau rhanbarthol yn cychwyn 'contract economaidd rhanbarthol' (Partneriaeth Ranbarthol) â Llywodraeth Cymru i fod yn fwy atebol dros gyflawni eu deilliannau o ganlyniad i'w penderfyniadau ariannu.

Roedd nifer fechan o ymatebwyr (dau a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn yma) yn teimlo ei bod hi'n bwysig bod partneriaethau rhanbarthol yn cael rhywfaint o adnoddau i feithrin y 'capasiti' sydd ei angen i 'hwyluso datblygiad trefniadau cydgynllunio a darparu ar y lefel fwyaf priodol'. Mewn un achos, awgrymodd ymatebwr o'r sector addysg uwch y byddai'n 'bosibl dadlau achos o blaid asiantaethau gweithredol datblygu rhanbarthol' (Addysg Uwch).

## 5.4 Partneriaethau Lleol

Cyflwynodd yr Awdurdodau Lleol yn benodol achos cadarn dros yr angen parhaus am i bartneriaethau lleol gadw eu 'llais', gan ddadlau bod 'dulliau gweithredu o'r gwaelod i fyny' a oedd yn bodloni anghenion uniongyrchol cymunedau a busnesau lleol yn dal i fod yn ofyniad i'w ymgorffori i'r dull buddsoddi rhanbarthol newydd o fynd ati.

Er enghraifft, cyfeiriodd sawl un o’r ymatebwyr i’r ymarfer ymgysylltu ffurfiol a chyfranogwyr y gweithdai at y dull gweithredu o'r gwaelod i fyny a fabwysiadwyd gan y rhaglen LEADER. Dywedodd un o'r ymatebwyr hyn 'gallwn fanteisio ar y profiad cadarnhaol yma wrth symud ymlaen' (Llywodraeth Cymru). Dadleuodd un arall:

'Mae dull gweithredu LEADER yn esiampl o arfer da mewn partneriaethau lleol a buddsoddiadau cymunedol ac ni ddylid colli hyn wrth symud ymlaen' (Llywodraeth Cymru).

At hynny, dadleuodd ymatebwr arall taw un o gryfderau pwysig y rhaglen LEADER oedd 'treialu cysyniadau/cynigion arloesol' (Partneriaeth Ranbarthol) cyn prif-ffrydio'r rhai llwyddiannus.

# 6. Sicrhau'r cymysgedd cywir

Mae'r adran hon yn tynnu ar safbwyntiau ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol a chyfranogwyr y gweithdai y gofynnwyd iddynt gynnig syniadau o ran sut i sicrhau'r cymysgedd cywir o fuddsoddiadau ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Dadleuwyd y dylai cymysgedd priodol o fuddsoddiadau gael ei fwydo yn y lle cyntaf gan bolisi Llywodraeth Cymru, ac yn enwedig y Cynllun Gweithredu Economaidd (EAP) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Dadleuodd un o'r ymatebwyr hyn y dylai'r strategaeth hon fod yn 'sylfaen' i adeiladu buddsoddiad rhanbarthol arno at y dyfodol (Y Sector Preifat). Cafodd y cysyniad hwn ei ddatblygu ymhellach gan ymatebwr arall a ddadleuodd:

'rydyn ni'n gweld y broses hon fel rhywbeth sy'n adeiladu ar gyd-gynhyrchu cynllun busnes rhanbarthol gyda Llywodraeth Cymru, a amlinellwyd yn yr EAP, a datblygu'r rhain ymhellach yn gynllun economaidd rhanbarthol integredig sy'n cael ei gyflawni'n rhanbarthol 'dan berchnogaeth ac sy'n cael ei gyflawni trwy drefniadau cyfreithiol' (Partneriaeth Ranbarthol).

Cyflwynodd ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol ddadl gref bod angen taro cydbwysedd priodol rhwng buddsoddiadau ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Dadleuwyd y dylid cyflawni hyn, ond heb y diffyg hyblygrwydd a rhwymau'r 'rhaniad artiffisial' a bennir gan raglennu cyllido'r UE, ac o fewn fframwaith lle na ddylai'r 'strwythur lesteirio cyflawniad'. Roedd osgoi 'dyblygu' rhwng y tair haen o weithgarwch, neu ei leihau cymaint â phosibl yn ddadl gyffredin a gyflwynodd yr ymatebwyr hefyd.

Un syniad a awgrymodd yr ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol oedd dyrannu cyllid ar gyfer pob un o'r 'haenau' hyn o ymyrraeth. Galwodd yr awdurdodau lleol yn benodol am i Lywodraeth Cymru ddarparu 'lefel sylweddol ac arwyddocaol o gyllid ... ar gyfer awdurdodau lleol'. Yn yr un modd, galwodd awdurdodau lleol a phartneriaethau rhanbarthol am ddyraniadau i'w buddsoddi ar lefel ranbarthol:

‘Byddem yn croesawu'r cyfle o gael dyraniadau rhanbarthol dangosol gydag allbynnau a deilliannau cymeradwy. Byddai hynny'n caniatáu i'r rhanbarthau fanteisio i'r eithaf ar fuddsoddi rhanbarthol a diwallu anghenion a sialensiau'r rhanbarth yn seiliedig ar dystiolaeth. Byddai'n rhoi cyfle i'r rhanbarthau ychwanegu gwerth at fuddsoddiad rhanbarthol hefyd trwy gyllid trosoledd o'r sector preifat, a thrwy gyllid cyfatebol o fecanweithiau ariannol eraill' (Awdurdod Lleol).

Roedd yr ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol yn cydnabod taw ar lefel genedlaethol yw'r ffordd orau o gyflawni rhai ymyraethau (fel y ffyrdd a'r rheilffyrdd), sy'n awgrymu y byddai'n werth chweil clustnodi cylch gorchwyl yr ymyrraeth i'w hariannu ar bob un o'r tair lefel.  Er enghraifft, nododd un o'r ymatebwyr hyn:

'Bydd yna rai rhaglenni ac ymyraethau ar lefel strategol a gâi eu gweithredu orau ar sail genedlaethol ledled Cymru e.e. mentrau cymorth busnes' (Partneriaeth Ranbarthol).

Soniodd sawl un o’r ymatebwyr am y gwersi a ddysgwyd o brofiad o'r pethau a oedd wedi gweithio'n dda neu ddim cystal mewn gwahanol feysydd polisi. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol, ac fe’u henwyd gan ddim mwy na thri neu bedwar o ymatebwyr yr un:

- roedd yna groeso ar y cyfan i'r cysyniad a amlinellwyd yn y papur polisi i ddysgu o barthau 'datblygu' neu 'weithredu' Norwy er mwyn targedu cyllid mewn ardaloedd daearyddol penodol
- blaenoriaethu buddsoddiad yn ôl angen wedi ei fesur yn ôl Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) ond gan gymryd ffactorau eraill fel enillion i ystyriaeth hefyd
- dyrannu cyllid yn ôl 'angen' yn ogystal â 'chyfleoedd'
- sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi'n cael eu cymryd ar y lefel isaf bosibl er mwyn sicrhau bod darpariaeth sy'n cael ei thargedu'n dda yn cael ei chyflawni'n gyflym
- buddsoddi mewn llai o brosiectau sy'n cynhyrchu effeithiau ystyrlon, fel y ceisiwyd ei gyflawni yn ystod cylch ariannu cyfredol yr UE

- adeiladu ar, ac efelychu strwythurau partneriaeth rhanbarthol sy'n gweithio'n dda e.e. awgrymwyd bod y partneriaethau cynllunio seilwaith sy'n cael eu cyflawni trwy'r Fargen Twf yn gweithio'n dda, ond nad oedd gan eraill, fel cynllunio sgiliau rhanbarthol, yr un lefel o gyfranogaeth weithredol gan bob lefel a sector
- dysgu o wersi sy'n ymwneud ag ymarferion ymgynghori, fel y mae'r esiampl benodol yma'n ei adlewyrchu:

‘Mae yna wersi cryf i'w dysgu am ddyluniad a datblygiad rhaglenni Cymru-eang yn y cyfnod cyfredol 2014-20, a ddatblygwyd heb unrhyw ymgynghori na gwaith partneriaeth ymlaen llaw. Er y gwahoddwyd mewnbwn rhanbarthol i flaenoriaethu cynlluniau ar gyfer Adeiladu ar gyfer y Dyfodol, roedd y partneriaid yn gyfyngedig yn eu hymateb i raglen nad oedd yn addas at y pwrpas i ddiwallu anghenion cynlluniau mewn ardaloedd lleol. Mae hi’n anochel bod hyn wedi arwain at ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar gyllid yn hytrach nag yn seiliedig ar anghenion i lenwi'r rhaglen.' (Partneriaeth Ranbarthol).

# 7. Manteision y dull gweithredu cyfredol i'w cadw

## 7.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn tynnu ar safbwyntiau ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol a chyfranogwyr y gweithdai am y manteision y mae Llywodraeth Cymru'n cynnig eu cadw ar ôl i gyllid yr UE ddod i ben.

Ar y cyfan, roedd yna gydsyniad y dylid cadw’r manteision a amlinellwyd yn y papur polisi. Roedd rhwng tri a naw o ymatebwyr yr un yn teimlo bod pob un o'r manteision canlynol yn arbennig o bwysig:

- dull gweithredu ar sail partneriaeth - roedd yna ddymuniad cryf i gynnal hyn mewn unrhyw ddull gweithredu yn y dyfodol (cyfeiriodd ryw naw o ymatebwyr at hyn yng nghwestiwn chwech o'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol, a phwysleisiodd cyfranogwyr y gweithdai bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth hefyd). Yn wir, ystyriwyd bod gwaith mewn partneriaeth wedi bod yn fuddiol mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys yn y sector gwledig: 'mae gwaith partneriaeth wedi dwyn ffrwyth yn arbennig yn y Cynllun Datblygu Gwledig lle mae hyn wedi helpu i wneud y sectorau gwledig yn fwy cystadleuol' (Sefydliad Aelodaeth)
- rhaglennu aml-flwydd - cafwyd croeso helaeth i'r egwyddor hon ac nid oedd neb o ymatebwyr yr ymarfer ymgysylltu ffurfiol na chyfranogwyr y gweithdai yn gwrthwynebu hyn (cyfeiriodd chwech o ymatebwyr at hyn naill ai yng nghwestiwn chwech neu saith o'r ymarfer). Roedd yna deimlad bod y dull gweithredu tymor-hir yma o edrych ar gyllid wedi darparu 'sefydlogrwydd a hyder' i sefydliadau (Addysg Uwch) a'i bod wedi eu cynorthwyo 'i sicrhau elfen o gynllunio adnoddau yn nhermau cadw arbenigedd a chyllid cyfatebol' (Partneriaeth Ranbarthol)
- monitro a gwerthuso - roedd yna gonsensws cyffredinol y dylid cadw'r ffocws ar fonitro a gwerthuso (cyflwynodd rhyw bump o ymatebwyr sylwadau ar hyn yng nghwestiwn chwech) er bod yna ryw awgrym bod yna gwmpas i symleiddio a lliflinio'r dull gweithredu

- llywodraethu da – clustnododd tri o'r ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol y dull hwn o weithredu fel un fantais a ddylai gael ei chadw yn y dyfodol, er i un ymatebwr alw am fabwysiadu 'dull archwilio sy'n seiliedig ar risg' yn fwy na heddiw (Y Sector Preifat).

Clustnodwyd manteision eraill a ddylai gael eu cynnal gan nifer lai o ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol (dim mwy nag un neu ddau yr un). Dyma nhw:

- ychwanegedd - er mwyn sicrhau y byddai'r cyllid buddsoddi yn ychwanegol ac na fyddai'n cael ei ddefnyddio 'i gymryd le unrhyw gyllid arall sy'n bodoli eisoes' (Awdurdod Lleol)
- cydgyfeirio – er mwyn cyfeirio'r adnoddau buddsoddi yn y meysydd allweddol o angen
- er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad yn trosoli cyllid cyfatebol gan y sector preifat
- clustnodi cyllid at gyfer materion neu themâu penodol fel trechu tlodi, dieithrwch cymdeithasol, darpariaeth y trydydd sector, ardaloedd gwledig a chymunedau pysgota. Ystyriwyd bod hyn wedi bod yn arbennig o effeithiol yn achos y sefydliadau trydydd sector y byddai eu mentrau wedi cael eu heithrio fel arall o dan y dull gweithredu ar sail fframweithiau strategol 'oherwydd eu maint, eu hyd a'u gwerth isel' (Y Trydydd Sector)
- cadw'r egwyddorion effeithiol a ddatblygwyd o fewn y rhaglen LEADER. Fel y dadleuodd un o'r ymatebwyr, 'byddai colli'r dull hwn o weithio a gorfod dechrau o’r dechrau eto i bob pwrpas yn niweidiol i'r bobl a'r sefydliadau y mae ein gwaith yn canolbwyntio arnynt a’r rheswm ein bod ni'n ymdrechu o gwbl' (Awdurdod Lleol)
- cadw'r defnydd o ragdaliadau i sefydliadau'r trydydd sector, yn hytrach na'u talu ar ffurf ôl-daliadau
- perthnasau effeithiol a chadarnhaol rhwng WEFO a'r partneriaid cyflawni
- cynnal yr egwyddor o fod â Phwyllgor Monitro Rhaglenni (ond o bosibl gan ddefnyddio is-bwyllgorau monitro ar gyfer gwahanol ffrydiau cyllid yng ngoleuni'r ffaith 'nad oes digon o amser' gan y PMC i fonitro ac archwilio'r holl raglenni (Sefydliad Aelodaeth)

- archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio Banc Buddsoddi Ewrop (EIB): nododd un ymatebwr ei fod yn 'edrych ymlaen at weld perthynas arloesol a brwdfrydig yn dyfnhau rhwng Cymru a'r EIB' (Awdurdod Lleol).

Awgrymwyd manteision eraill dull gweithredu cyfredol yr UE o gyflawni rhaglenni, na drafodir yn y papur polisi i'r graddau y byddai'r ymatebwyr wedi dymuno o bosibl, fel rhai a ddylai gael eu cynnal. Awgrymodd dim mwy nag un neu ddau o ymatebwyr yr un y themâu canlynol:

- sicrhau cydbwysedd priodol rhwng buddsoddiadau cyfalaf a refeniw a oedd 'yn fanteisiol i'r naill a'r llall' (Partneriaeth Ranbarthol)
- themâu trawsbynciol 'a ddylai gael eu hymgorffori i unrhyw gronfa olynol a gynigir ac unrhyw fentrau y mae'n eu hariannu wedyn' (Y Trydydd Sector)
- clustnodi cymorth technegol - ystyriwyd bod hyn o bwys penodol i sefydliadau'r trydydd sector, er enghraifft: 'mae'r cymorth a ddarperir gan, er enghraifft, Tîm Ewropeaidd Trydydd Sector y WCVA, yn helpu i sicrhau bod sefydliadau'n cyflawni eu targedau perfformiad a'u bod yn cydymffurfio â'r meini prawf perthnasol' (Y Trydydd Sector)
- defnyddio costau wedi eu symleiddio ar gyfradd safonol, sy'n caniatáu i ddarparwyr adfer costau gorbenion mewn ffordd effeithlon
- parhau i ddefnyddio fframweithiau strategol yn ogystal â dulliau gweithredu 'o'r gwaelod i fyny' fel yn a welir yn rhaglen LEADER, er mwyn sicrhau bod llai o brosiectau, ond eu bod yn brosiectau strategol ag ymyraethau ar lefel gymunedol hefyd a fyddai'n mynd i'r afael ag anghenion cymunedol a lleol. Dadleuodd un o'r ymatebwyr:

  ‘Mae dull gweithredu LEADER yn ymbweru cymunedau lleol a gellir defnyddio'r dull gweithredu hwn gyda 'chymuned' o bobl ifanc y mae eu 'strategaeth leol' yn gofyn am ddarparu sgiliau meddal. Ni fyddai hyn ar draul buddsoddiadau graddfa fwy sy'n briodol yn rhanbarthol trwy, e.e. NWEAB[17], ond byddai'n cydategu ac yn ychwanegu gwerth, gan leihau'r dagfa rhwng hyder, sgiliau cymdeithasol, cyfleoedd ac uchelgais’ (Y Trydydd Sector).

[17] Bwrdd Uchelgeisiau Economaidd Gogledd Cymru

Disgrifiodd un Sefydliad Aelodaeth a oedd yn cynrychioli buddiannau'r sector amaeth achos penodol mewn perthynas â’r sector honno. Dadleuodd bod: 'yn rhaid i ddyraniadau cyllid amaeth gan y Trysorlys i'r gwledydd cartref gyfeirio at fformwla gyfredol yr UE ar gyfer dosbarthu cyllid PAC[18] o fewn y DU' a bod y sector 'yn croesawu’r cadarnhad o’r ymrwymiad i glustnodi cyllid o'r fath' (Sefydliad Aelodaeth) gan Brif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet ill dau yn Hydref 2017 yn hynny o beth.

[18] Polisi Amaethyddol Cyffredin

# 8. Cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol

Mae'r adran hon yn trafod safbwyntiau'r ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol a chyfranogwyr y gweithdai a holwyd am y cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol ar ôl Brexit yng ngoleuni'r ffaith fod rheolau'r UE wedi llesteirio buddsoddi rhanbarthol ac wedi ychwanegu cymhlethdod.

Roedd yna gefnogaeth helaeth i'r posibilrwydd o fabwysiadu un ffrwd ariannu ar ôl Brexit yn hytrach na pharhau â'r model cyfredol a fydd yn cwmpasu dau ranbarth a gwahanol flaenoriaethau thematig. Dadleuodd yr ymatebwyr y byddai cyflwyno un ffrwd ariannu'n caniatáu ar gyfer datblygu ac ariannu mwy o fuddsoddiadau strategol, a fyddai'n mynd i'r afael ag anghenion gwirioneddol yn hytrach na gorfod ‘ffitio’ â’r gofynion ariannu. Awgrymwyd hefyd y byddai'r dull gweithredu hwn yn caniatáu i'r cyllid gael ei sianelu at feysydd o gyfle economaidd neu at adeiladu ar lwyddiannau economaidd. Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r syniad yn credu y byddai'n dod â mwy o 'hyblygrwydd' (pedwar ymatebwr) yn nhermau dyrannu cyllid buddsoddi, ac yn enwedig yn nhermau buddsoddi mewn cyfalaf/seilwaith a buddsoddiadau cymdeithasol/mewn pobl (a chymysgedd o'r rhain) ond hefyd yn nhermau buddsoddi cyllid grant neu ad-daladwy. Dadleuodd un o'r ymatebwyr hyn y 'byddai gwahanu'r elfennau hyn yn dileu'r holl hyblygrwydd i ymateb i'r amgylchiadau economaidd ac ariannol newidiol' (Y Sector Preifat).

Roedd yna deimlad hefyd y byddai'r dull gweithredu hwn yn fuddiol yn nhermau caniatáu i Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ymateb i flaenoriaethau newydd a gwahanol dros amser, yn ogystal â dyrannu cyllid yn seiliedig ar ddeilliannau yn hytrach na gweithgareddau neu allbwn. Yn gyson â hyn, mynegodd sawl ymatebwr eu cefnogaeth dros ffordd 'symlach' a mwy 'tryloyw' o weithio. Defnyddiodd un ymatebwr brosiect cyfredol ym maes sgiliau i bledio'r achos am fod 'angen ei rannu'n bedwar prosiect i ddiwallu gofynion y rhaglen weithredol oherwydd ffiniau ariannu a lefelau cymwysterau. Mae hyn yn gwastraffu arian ar gostau rheoli a gorbenion eraill’ (Addysg Bellach).

Mynegodd pedwar ymatebwr eu pryder am greu un ffrwd ariannu, er ei bod hi'n werth nodi bod eu sylwadau nhw'n llai manwl o ran eu natur. Rhybuddiodd un ymatebwr yn erbyn cyfuno cronfeydd, gan ddadlau y gallai hyn fynd yn groes i flaenoriaethau buddsoddi cymdeithasol, a allai adael 'llawer o ddarparwyr y rheng flaen mewn sefyllfa anghynaladwy yn ariannol' (Sefydliad Aelodaeth). Dadleuodd un arall o blaid 'clustnodi' cyllid buddsoddi er mwyn sicrhau bod ardaloedd fel 'ardaloedd gwledig' yn parhau i gael cymorth (Awdurdod Lleol) yn ogystal â meysydd eraill fel sgiliau a hyfforddiant, gwaith ymchwil ac arloesi, yn ogystal â chludiant a seilwaith ffisegol. Roedd dau ymatebwr yn poeni am y posibilrwydd y byddai lefelau'r cyllid o ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn symud i Ddwyrain Cymru ar ôl i'r rhaglenni a ariennir gan yr UE ddod i ben, gan ychwanegu ei bod hi'n bwysig cadw ffocws ar ranbarthau sy'n tanberfformio a 'chau'r bwlch' (Awdurdod Lleol) rhwng ardaloedd tlotach Cymru a gweddill y DU.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol, yn ogystal â chyfranogwyr y gweithdai, yn gefnogol o'r syniad o ddileu'r 'ffiniau daearyddol artiffisial' cyfredol sy'n cael eu gyrru gan yr UE, gyda'r potensial i ddatblygu cronfa Cymru-eang. Awgrymodd ryw chwech o'r ymatebwyr i'r ymarfer ymgynghori ffurfiol y byddai'r newid hwn yn 'adlewyrchu amrywiol anghenion ac amgylchiadau gwahanol rannau o Gymru'n well' ac byddai'n darparu'n well ar gyfer anghenion ardaloedd economaidd swyddogaethol. Awgrymwyd yn gyson y byddai dileu'r ffiniau daearyddol cyfredol yn dileu'r 'annhegwch o ran cymorth rhwng siroedd' (Y Sector AB) ac yn cyflawni effeithiau mwy. Mae'n bosibl bod yr esiampl ganlynol yn profi'r pwynt:

'mae gan hanner deheuol Caerdydd, o Drelái yn y gorllewin i Trowbridge yn y dwyrain - yr hyn a alwn yn 'Gylch Deheuol' - boblogaeth o dros 150,000 o bobl. Petai'r ardal hon yn awdurdod lleol ar ei phen ei hun, hi fyddai'r mwyaf ond 6 yng Nghymru. Ond mae'n gymwys i gael lefelau is o gymorth am weithgareddau cyflogaeth na llawer o'r ardaloedd o Gymru sy'n well eu byd. Mae hyn er gwaetha'r ffaith taw'r ardal hon – o ryw bellter - fyddai'r tlotaf yng Nghymru, gyda dros draean o'r holl LSOAs[19] yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru' (Awdurdod Lleol).

[19] Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lleol

Cafwyd rhywfaint o drafodaeth (gan dri ymatebwr) o gylch yr angen am symud i gyfeiriad 'model ariannu mwy cytbwys a chynaliadwy' a fyddai'n ymgorffori grantiau a chyllid ad-daladwy, er y galwodd un ymatebwr o awdurdod lleol am bwyll yn hynny o beth wrth ddadlau bod 'rhaid i grantiau aros yn opsiwn i'w defnyddio ar gyfer cyllid polisi rhanbarthol' am fod 'hyd yn oed benthyciadau heb gost yn anneniadol i ddatblygwyr eiddo' (Awdurdod Lleol).

Cynigiwyd nifer o awgrymiadau ymarferol hefyd, gan ddim mwy na dau neu dri o ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol, o ran sut y gellid rheoli pethau mewn ffordd wahanol. Ceir crynodeb o'r rhain isod:

- sefydlu prosesau priodol er mwyn caniatáu i benderfyniadau ariannu gael eu cyflawni'n gynt; nid oedd yn anghyffredin i'r ymatebwyr ddweud bod rhai ceisiadau lefel cenedlaethol yn cymryd 'mwy na 18 mis i'w cymeradwyo' o dan raglen ariannu gyfredol yr UE
- ystyried casglu gwybodaeth lefel sefydliad gan unrhyw ymgeisydd am gyllid unwaith yn unig (neu unwaith y flwyddyn o leiaf) er mwyn lleddfu'r baich ar y sefydliadau sy'n cyflwyno'r ceisiadau
- sefydlu terfynau amser ar gyfer dyfarnu estyniadau i brosiectau a ariennir (yn seiliedig ar wythnosau yn hytrach na misoedd) er mwyn cynnal rolau staff a chof sefydliadau
- cynnal rheolau gweithredu cyson trwy gydol cyfnod cyflawni'r rhaglen yn hytrach na gwneud diwygiadau parhaus
- caniatáu mwy o hyblygrwydd o fewn cyllidebau'r dyfodol, ac yn benodol mewn perthynas â defnyddio tanwariant. Er enghraifft, dadleuodd un o'r ymatebwyr: ‘Ni ddylid cosbi cyrff rheoli am gyflawni am lai na'r gyllideb (o fewn meini prawf penodol) a dylid ailddyrannu unrhyw arian na ddefnyddir yn brydlon er budd y rhanbarth, sy'n darparu elfen ychwanegol i’n cynorthwyo i ymateb i newid economaidd.’ (Y Sector Preifat)
- cynllunio cyfnod cyn-datblygu ar gyfer unrhyw brosiect a ariennir: dadleuodd un o'r ymatebwyr o blaid 'rhaglen pum-mlynedd, gan gynnwys cyfnod cyn-gweithredu chwe mis o hyd nad yw'n seiliedig ar dargedau

- ystyried 'dulliau caffael cyhoeddus [mwy] arloesol a chadwyni cyflenwi mwy lleol' (Awdurdod Lleol) na fu modd eu cyflawni hyd yn hyn o fewn cyfyngiadau rheolau caffael yr UE
- ystyried y dull gweithredu a fabwysiadwyd trwy'r Gronfa Datblygu Porthladdoedd lle cymeradwyir set o ddeilliannau cyffredin ar draws portffolio o brosiectau a ariennir
- lleihau'r rhwystrau a'r beichiau gweinyddol i ddarparwyr prosiectau trwy fabwysiadu archwilio'n seiliedig ar risg a dulliau archwilio sy'n seiliedig ar berfformiad
- mabwysiadu modelau talu hyblyg er mwyn sicrhau nad oes unrhyw sefydliad, yn enwedig sefydliadau'r trydydd sector, yn cael eu cau allan o'r cyflawniad. Awgrymodd un sefydliad trydydd sector y dylid cadw'r model 'rhagdaliadau' a fabwysiadwyd o fewn rhaglen Cronfeydd Strwythurol cyfredol yr UE
- diwygio'r rheolau cyfredol o ran cymorth y wladwriaeth gyda'r nod o leihau neu ddileu'r rhwystrau sy'n bodoli ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector ar hyn o bryd. Dadleuodd un ymatebwr: 'byddem o blaid gweld dull gweithredu sy’n seiliedig ar gymorth y wladwriaeth sy'n cymryd i ystyriaeth sut y llywodraethir y sefydliad; lle mae'r rhai sydd â threfniadau llywodraethu nid er elw’n cael eu trin yn fwy ffafriol na sefydliadau'r sector preifat (Y Trydydd Sector).

# 9. Syniadau newydd neu arloesol

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r syniadau allweddol a gynigiwyd gan yr ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol o ran sut y gellid mabwysiadu dull gweithredu newydd neu arloesol mewn perthynas â buddsoddi rhanbarthol. Nid ailadrodd y syniadau neu'r safbwyntiau a drafodwyd eisoes yn yr adroddiad cryno hwn yw ein bwriad.

Roedd gwir awydd ymysg yr ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol i weld dull o weithredu yn seiliedig ar symleiddio (naw ymatebwr) a hyblygrwydd (saith ymatebwr) gan ddileu unrhyw fiwrocratiaeth a gofynion diangen a bennwyd fel amodau ar gyfer cyllid yr UE. Fodd bynnag, mynegodd dau ymatebwr rhywfaint o bwyll am y posibilrwydd o gyflwyno dull gweithredu hollol newydd neu arloesol ran buddsoddi rhanbarthol, gan ffafrio 'gwelliannau a gyflawnir dipyn wrth dipyn dros amser’ yn hytrach na gwastraffu adnoddau ar 'ddulliau gweithredu heb eu profi na fyddai'n gweithio yn ymarferol' (Awdurdod Lleol).

Awgrymodd rhyw wyth o ymatebwyr ddulliau o weithredu i Lywodraeth Cymru eu hystyried o ran sut y gellir hybu agwedd briodol at risg, er na wnaed unrhyw awgrym gan fwy na dau neu dri o ymatebwyr yr un. Yn eu plith roedd:

- clustnodi swm cyfyngedig o gyllid i'w fuddsoddi yn benodol mewn darpariaeth risg uwch
- caniatáu ar gyfer ariannu nifer fechan o brosiectau arloesol risg uchel yn rhan o bortffolio ehangach o fuddsoddiadau â llai o risg
- rhyddhau darpariaeth ar gyfer cyllid datblygu er mwyn caniatáu i gyflawnwyr/ noddwyr prosiectau archwilio cwmpas digonol ar gyfer prosiectau risg uwch
- datblygu cytundebau ffurfiol a chontractiol â phartneriaethau rhanbarthol gan eu gwneud yn atebol am benderfyniadau ariannu a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ymyrraeth
- dysgu o brofiad o ran sut mae partneriaethau Rhanbarth Dinas yn rheoli risgiau ac yn cyrchu buddsoddiad y sector preifat
- meithrin agwedd fwy agored at risg, gwobrwyo a methiant o fewn unrhyw ganllawiau a dogfennaeth rhaglennu. Yn benodol, datblygu 'awydd i ddysgu o

ddeilliannau negyddol' trwy geisio adborth gan ddarparwyr prosiectau ar 'beth na weithiodd, yn ogystal â beth fu'n llwyddiannus' (Addysg Uwch).



Gwefan: http://wefo.wales.gov.uk | E-bost: enquiries-wefo@wales.gsi.gov.uk | Ffôn: 0845 010 3355

# 10. Rhaglenni'r UE y dylid eu cadw

Mae'r adran hon yn cyflwyno safbwyntiau ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol (34 i gyd) a chyfranogwyr y gweithdai a ymatebodd ac a drafododd yn fanwl pa raglenni UE y dylai Cymru geisio eu cadw.

Ar y cyfan, roedd yna ddymuniad cryf i weld Cymru'n cynnal mynediad at rai rhaglenni UE allweddol ar ôl Brexit, ac awgrymodd un ymatebwr o'r byd AU y gellid cyflawni hyn mewn 'ffordd debyg i [y dull o weithredu sydd ar waith yn] Norwy a'r Swistir' (Y Sector AU). Er enghraifft, dadleuodd un o'r ymatebwyr bod 'rhaid i Gymru gynnal mynediad at raglenni ariannu cyfredol yr UE cymaint â phosibl, a lle na ellir gwneud hyn, rhaid darparu cyllid arall yn ei le' (Y Sector AB). Galwodd o leiaf dau ymatebwr am bwyll mewn perthynas â’r dull hwn o weithredu, gan ddadlau y dylai Llywodraeth Cymru gymryd yr elw posibl ar fuddsoddiad mewn perthynas ag unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chysylltiad parhaus Cymru â rhaglenni o'r fath i ystyriaeth. Er enghraifft: 'Mae angen datblygu ymateb i'r cwestiwn yma ochr yn ochr â chostau tebygol cymryd rhan yn amrywiol raglenni a rhwydweithiau'r UE' (Partneriaeth Ranbarthol).

Mynegodd ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol safbwynt cadarn iawn y dylid cynnal mynediad at ddwy o raglenni addysg yr UE. Roedd yr ymatebion o'r sectorau AB ac AU yn arbennig o frwd dros barhad y rhaglenni hyn, ond roedd sectorau eraill yn gefnogol hefyd, fel y gwelir isod:

‘Byddem o blaid gweld y DU yn aros o fewn rhaglenni addysg fel Horizon ac Erasmus ac yn y rhaglenni eraill y soniwyd amdanynt. Petai'r DU yn methu â gwneud hyn, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i archwilio a allai gymryd rhan mewn rhaglenni o'r fath ei hun, ar yr amod bod manteision yn gymesur â'r costau’ (Sefydliad Aelodaeth).

Yn achos **Erasmus+**, dadleuodd 23 o ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol o blaid parhau â'r rhaglen, gyda'r cyfranogwyr yn mynegi safbwyntiau fel: ‘Rhaid i Gymru gynnal mynediad at Erasmus+, yn nhermau Addysg Bellach yn ogystal ag Addysg

Uwch' (Y Sector AB). Os na all Cymru ddiogelu mynediad, yna awgrymwyd bod angen 'archwilio cynllun i Gymru'n unig sy'n efelychu'r un manteision' (Y Sector AB.

Dadleuodd cyfanswm o 17 o ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol o blaid sicrhau argaeledd parhaus **Horizon 2020** a'r rhaglen a fydd yn ei holynu (Horizon Europe, a drafodwyd gan Weithgor Rhaglen Fframwaith Rhwydwaith FP9) a hynny i raddau helaeth am taw'r rhaglen olynu hon (â chyllideb o €97.9 biliwn) fydd y rhaglen ariannu ymchwil ac arloesi fwyaf erioed o fewn fframwaith darpariaeth ariannol nesaf yr UE. Nododd un o'r ymatebwyr:

'Mae Horizon 2020 yn hanfodol i gadw'r wlad yn gystadleuol trwy hwyluso gwaith ymchwil ac arloesi mewn prifysgolion a fydd yn dod o hyd i ddefnyddiau masnachol ymarferol yn y pen-draw. Bydd hyn ein cynorthwyo ni hefyd i ddod o hyd i atebion technolegol i broblemau dybryd fel y newid yn yr hinsawdd a phoblogaeth sy'n heneiddio. Fodd bynnag, ni fydd cyrchu'r rhaglen fel trydedd gwlad yn caniatáu i Gymru arwain ar Horizon 2020, ac felly sefyllfa o ail ddewis yw hi o gymharu â'r sefyllfa sydd ohoni' (Awdurdod Lleol).

Ystyrir bod rhaglenni eraill yr UE yn bwysig hefyd, ond enwyd y rhain gan nifer lai o'r ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol. Er enghraifft, dadleuodd naw o ymatebwyr o blaid ymgysylltiad parhaus ag **Ewrop Greadigol** a dadleuodd yr un nifer o blaid cyfranogaeth barhaus Cymru mewn rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC) fel **Interreg**. Enwodd y cyfranogwyr yn y gweithdai'r rhaglen Interreg fel ymyrraeth lwyddiannus a ddylai gael ei chynnal, yn enwedig am yr ystyriwyd ei bod yn llai biwrocrataidd na rhaglenni eraill a ariennir trwy'r UE.

Yn achos y rhaglen Interreg, dadleuodd naw o ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol o blaid cyfranogaeth barhaus yn rhaglen Interreg Cymru-Iwerddon, a phlediodd tri achos rhaglen Interreg Ardal Môr Iwerydd. Yr ofn oedd y byddai colli'r rhaglen hon yn golygu 'colli rhwydweithiau polisi, trosglwyddiad polisi, rhannu arferion gorau a dysgu gan ein partneriaid Ewropeaidd yr ydym wedi elwa'n aruthrol arnynt' (Awdurdod Lleol). Dadleuodd ymatebwr arall 'y bydd cysylltiadau a gwaith partneriaeth parhaus trwy raglenni fel rhaglen INTERREG Cymru-Iwerddon yn

hanfodol i gynnal rhwydweithiau a chydweithredu rhyng-genedlaethol er mwyn i Gymru gynnal ei uchelgeisiau allblyg mewn dyfodol ar ôl Brexit' (Partneriaeth Ranbarthol).

Soniodd nifer lai o ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol am yr angen am i Gymru gynnal mynediad at fentrau eraill:

- galwodd chwech am barhad y rhaglen **LIFE**
- galwodd pump am gysylltiad parhaus â'r rhaglen **LEADER** a phwysleisiodd cyfranogwyr y gweithdai bwysigrwydd cynnal y rhaglen hon o gymryd ei dull lleol o weithredu ar lawr gwlad
- galwodd dau ymatebwr (y naill o'r sector preifat a'r llall o awdurdod lleol) am barhau i gyrchu **Banc Buddsoddi Ewrop** ac am i'r DU barhau i fod yn bartner ynddo.
- galwodd un ymatebwr o awdurdod lleol am fynediad parhaus i'r rhaglen **Daphne**.

## 11. Chwarae rhan wrth ddatblygu model buddsoddi rhanbarthol at y dyfodol

Mae'r adran hon yn cyflwyno safbwyntiau'r ymatebwyr i'r ymarfer ymgysylltu ffurfiol o ran sut yr hoffent gael chwarae ran neu gael eu cynnwys yn natblygiad a chyflawniad model buddsoddi rhanbarthol newydd i Gymru yn y dyfodol (cynigiodd 28 safbwyntiau ar y cwestiwn yma).

Roedd yr holl ymatebwyr yn gadarnhaol ynghylch yr awydd am fod â ‘chysylltiad’ (deg ymatebwr) neu 'chwarae rhan' (pump ymatebwr) yn y broses o ddatblygu model buddsoddi rhanbarthol at y dyfodol. Nid oedd hi'n anghyffredin clywed:

'Byddem yn dymuno bod yn gysylltiedig â dyfodol y model buddsoddi rhanbarthol ar gyfer Cymru, a chwarae rhan yn y broses ddylunio ar y cyd, gan gynnwys dylanwadu ar y weledigaeth a'r blaenoriaethau buddsoddi' (Awdurdod Lleol).

Y teimlad oedd bod angen i'r broses ymgysylltu hon fod yn 'agored ac yn dryloyw' (Sefydliad Aelodaeth) â chynrychiolaeth deg a chyfartal gan bob sector ar unrhyw grwpiau neu bartneriaethau, gan gynnwys awdurdodau lleol, y byd addysg uwch a phellach, y trydydd sector, y sector preifat a grwpiau cymunedol.

Awgrymodd ambell un o'r rhai a ymatebodd hwyrach fod yna gwmpas i ddarparu ar gyfer ymgysylltiad sefydliadau a rhanddeiliaid trwy ddull gweithredu mewn tair haen, gan ganolbwyntio ar:

- polisïau a blaenoriaethau ar lefel genedlaethol: Awgrymwyd y gellid cyflawni hyn trwy 'grŵp strwythuredig a fyddai'n sicrhau cynrychiolaeth effeithiol ar lefel genedlaethol', (Y Sector Cyhoeddus) yn debyg i'r cysyniad a'r model a fabwysiadwyd ar gyfer Pwyllgor Monitro'r Rhaglen gyfredol
- polisïau a blaenoriaethau lefel rhanbarthol: (o leiaf chwech ymatebwr) a awgrymodd y dylai ffora rhanbarthol weithredu fel cyfrwng i glustnodi a chyd-ddylunio blaenoriaethau ar lefel ranbarthol, a hynny o bosibl gan ddefnyddio 'is-grwpiau rhanbarthol'

- partneriaethau polisi a blaenoriaeth ar lefel leol: gyda'r grwpiau hyn yn cyfrannu gwybodaeth leol ar strategaethau ar lefel ranbarthol.

Yn ogystal, cyflwynodd ymatebwyr unigol nifer o awgrymiadau eraill am sut yr oeddent am gael chwarae rhan yn natblygiad model buddsoddi rhanbarthol at y dyfodol, gan gynnwys:

- y cyfle i ddarparu mewnbwn i ymarferion ymgynghori'r dyfodol, fel y gallu i ymateb i ymarferion ymgynghori ar unrhyw gynlluniau drafft o ran buddsoddi rhanbarthol. Yn hynny o beth, galwodd un ymatebwr (Sector Cyhoeddus) am i unrhyw ddogfen ymgynghori gael ei rhyddhau ar dudalen ymgynghori Llywodraeth Cymru, yn hytrach nag ar dudalennau gwe WEFO
- trefnu neu gyfrannu at achlysuron o fewn sectorau penodol
- mynychu a chyfrannu at achlysuron neu weithdai lleol
- cyrchu gwybodaeth trwy webinarau, newyddlenni neu ddiweddariadau eraill
- cael gwahoddiad i gyfrannu at unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen penodol.

Dadleuodd o leiaf dau ymatebwr ei bod hi'n bwysig i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gallai sefydliadau adnoddu cyfraniad o'r math hwn yn y dyfodol gan alw am '[ryddhau] adnoddau digonol [iddynt er mwyn caniatáu iddynt] fanteisio i'r eithaf ar yr ymgysylltiad yma' (Addysg Uwch).

Cynigiodd un ymatebwr o'r byd Addysg Uwch bersbectif unigryw ar fecanwaith bosibl ar gyfer cyd-ddylunio model buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol, a phlediodd yr achos dros 'arsyllfa sy'n cael ei adnoddu'n briodol er mwyn ymchwilio a datblygu gweithredoedd, o dan gyfarwyddyd LIC yn y pen-draw. Gallai hynny fod yn ogystal ag asiantaethau datblygu rhanbarthol, a allai ganolbwyntio ar gyflawni, ond byddai'r arsyllfa’n cefnogi eu swyddogaethau o ran ymchwil, ymgynghori a meithrin capasiti' (Addysg Uwch).

Yn nhermau ymgysylltu'r trydydd sector a chymunedau'n fwy cyffredinol, cyflwynwyd ambell i syniad a dadl (gan un neu ddau o'r ymatebwyr o'r trydydd sector yn bennaf). Yn eu plith roedd:

- defnyddio 'strwythurau sy'n bodoli eisoes fel Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, y Fforwm Cymunedau Ffydd, Fforwm Hil Cymru a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y broses ymgynghori, yn ogystal â cheisio ymgysylltiad ehangach awdurdodau lleol a chynghorau tref a chymuned, ac yn uniongyrchol gyda chymunedau lleol' (Sefydliad Aelodaeth)
- sicrhau cynrychiolaeth well i holl sefydliadau'r trydydd sector yn yr holl drefniadau partneriaeth ranbarthol a lleol. Er enghraifft, dadleuodd un o'r cyfranogwyr, er bod gan y trydydd sector gynrychiolaeth briodol ar y PMC yn ystod y rhaglen gyllido hon, nid oedd hyn wedi cael 'ei efelychu ar lefel leol neu ranbarthol bob tro, â'r sector yn cael cynrychiolaeth er mwyn sioe yn unig yn aml ... dylai unrhyw drefniadau gynrychioli gwir gydraddoldeb ar draws y sectorau' (Y Trydydd Sector)
- sicrhau bod darpar-fuddiolwyr, yn ogystal â darparwyr y rheng flaen, yn cyfrannu at y broses ymgynghori. Er enghraifft: 'dylid datblygu'r gronfa lwyddiannus yn sgil ymgynghoriad ystyrlon â buddiolwyr posibl a'r bobl hynny sy'n darparu gwasanaethau'r rheng flaen i'w cynorthwyo, yn debyg i'r dull o weithredu y mae tasglu'r Cymoedd wedi ei fabwysiadu' (Y Trydydd Sector).



Gwefan: http://wefo.wales.gov.uk | E-bost: enquiries-wefo@wales.gsi.gov.uk | Ffôn: 0845 010 3355